

Adolygiad o Gyfyngiadau'r Coronafeirws – 3 Mehefin 2021

ASESIAD EFFAITH CRYNO

Cyflwyniad

[Cafodd Asesiad Effaith Cryno ei lunio ym mis Rhagfyr 2020](#) ar ôl cyflwyno system o lefelau rhybudd yng Nghymru. Yn dilyn yr [Adolygiad 21 Diwrnod ym mis Chwefror 2021, lluniwyd Asesiad Effaith Cryno pellach](#). Cafodd yr [Asesiad Effaith Cryno diweddaraf ei lunio yn dilyn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 22 Ebrill](#).

Mae'r [Cynllun Rheoli Coronafeirws diwygiedig](#) ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Nod y ddogfen hon yw cofnodi asesiad o effaith y mesurau llacio a roddwyd ar waith neu a nodwyd yn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 3 Mehefin 2021 ar wahanol ddemograffegau yn y gymdeithas yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr, daeth 'amrywiolyn Alpha' i'r amlwg, amrywiolyn mwy heintus. Arweiniodd hyn at gyfyngiadau llymach Lefel Rhybudd 4 (ee atal y mwyafrif helaeth o ddysgwyr mewn addysg rhag dysgu wyneb yn wyneb). Ers hynny, mae'r sefyllfa o ran iechyd yng Nghymru wedi gwella gan olygu y bu modd llacio'r cyfyngiadau rywfaint yn adolygiadau mis Chwefror a mis Mawrth. Mae'r gwelliannau wedi parhau ac wedi cael eu cynnal sy'n golygu bod modd symud yn ofalus ac yn raddol i Lefel Rhybudd 2 yng Nghymru.

Yn Lloegr, mae'r gostyngiad yn y prif amrywiolyn, a ganfuwyd gyntaf yng Nghaint (yr 'amrywiolyn Alpha') wedi bod yn cuddio'r cynnydd cyflym (o lefelau isel) yn yr amrywiolyn Delta. Mae hi bron yn bendant bod gan amrywiolyn Delta fantais sylweddol o ran ei gyfradd twf dros yr amrywiolyn Alpha (hyder uchel), er bod cryn ansicrwydd o hyd ynghylch graddau'r fantais honno.

Mae'r ansicrwydd ynghylch twf yr amrywiolyn Delta o'i gymharu â'r amrywiolyn Alpha yn golygu nad ydym mewn sefyllfa i allu camu i lefel rhybudd 1 eto yng Nghymru. Fel rhan o'r agwedd ofalus sydd gennym yng Nghymru at lacio'r cyfyngiadau, bydd y camau cyntaf tuag at symud o lefel rhybudd 2 i lawr i lefel rhybudd 1 yn dechrau gyda chyfyngiadau sy'n ymwneud yn bennaf â gweithgareddau awyr agored. Byddwn yn cadw golwg ar y cyfyngiadau sy'n weddill ar weithgareddau dan do, ond ni fyddwn yn eu hadolygu cyn 21 Mehefin.

Dyma'r prif fesurau llacio a roddwyd ar waith yn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 3 Mehefin2021:

O 7 Mehefin 2021:

- Mae'r cyfyngiadau ar ymgynnull gydag eraill dan do yn cael eu llacio er mwyn i hyd at 6 aelwyd (heb gynnwys plant o dan 11 oed neu ofalwyr o unrhyw un o'r aelwydydd hyn) gael ymgynnull mewn anheddau preifat a llety gwyliau.
- Mae'r cyfyngiadau ar ymgynnull gydag eraill yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gerddi preifat, yn cael eu llacio er mwyn i hyd at 30 o bobl o hyd at 30

o aelwydydd (heb gynnwys plant o dan 11 oed neu ofalwyr o unrhyw un o'r aelwydydd hyn) gael ymgynnull.

- Gall aelwydydd estynedig gynnwys bellach hyd at dair aelwyd wahanol, ynghyd â phedwaredd aelwyd o dan amgylchiadau cyfyngedig fel y nodir isod:
 - aelwyd ag oedolyn sy'n byw ar ei ben ei hun
 - aelwyd ag un oedolyn cyfrifol
 - aelwyd lle rydych yn 16 neu 17 oed yn byw ar eich pen eich hun neu gydag eraill o'r un oedran, heb oedolyn
- Bydd y cyfyngiad ar y niferoedd sy'n cael ymgynnull ar gyfer gweithgareddau wedi'u trefnu a nifer y gwesteion a ganiateir mewn priodas, derbyniad partneriaeth sifil a the angladd yn parhau ar 30 dan do. Fodd bynnag, yn yr awyr agored, gall y mathau hyn o ddatliadau naill ai gael eu trefnu gan unigolyn ar gyfer hyd at 30 o bobl neu fel rhan o 'gynulliad a reoleiddir' ar gyfer hyd at 4,000 o bobl yn sefyll neu 10,000 o bobl yn eistedd.
- Bydd cyfyngiadau'n cael eu codi er mwyn i Rinciau Sglefrio Iâ gael ailagor
- Bydd cyfyngiadau'n cael eu diwygio i ganiatáu i ddigwyddiadau ar raddfa fwy fel cyngherddau, gemau pêl-droed a seremonïau graddio ailddechrau gyda rheolau newydd ar nifer y bobl sy'n cael ymgynnull. Mae'r rheolau hyn yn cynnwys:
 - hyd at 4,000 yn sefyll ar gyfer digwyddiadau awyr agored; a
 - hyd at 10,000 yn eistedd ar gyfer digwyddiadau awyr agored.

Y cefndir deddfwriaethol

Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym ar 26 Mawrth 2020, a chawsant eu disodli wedyn gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Rhif 3) a (Rhif 4) (Cymru) 2020. Mae modd gweld fersiwn wedi'i chydgrynhoi o'r Rheoliadau diweddaraf [yma](#).

Mae'r Asesiad Effaith Cryno hwn yn ymwneud â'r diwygiadau a wnaed i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 o ganlyniad i'r Adolygiad 21 Diwrnod ar 14 Mai 2021.

Adolygu rheoliadau cyfyngiadau

Adolygir y Rheoliadau bob tair wythnos yn unol â'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf.

Asesiadau o'r Effaith

Mae'r asesiadau canlynol o'r effaith, sy'n ymwneud â'r mesurau llacio a roddwyd ar waith, i'w gweld yng ngweddill y ddogfen hon:

- i. 30 o bobl yn cwrdd yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gerddi preifat
- ii. Aelwydydd estynedig
- iii. Gweithgareddau Awyr Agored wedi'u Trefnu
- iv. Priodasau, partneriaethau sifil a the angladdau
- v. Digwyddiadau mawr
- vi. Ymweliadau addysgol preswyl.

i. 30 o bobl yn cwrdd yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gerddi preifat

EFFEITHIAU LLESIANT

Mae effeithiau negyddol mawr yn gysylltiedig â chyfyngu ar allu pobl i gymdeithasu.

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arolwg ar iechyd a llesiant (1 i 7 Mawrth 2021), a phan ofynnwyd i bobl sut roeddent yn teimlo yn ystod yr wythnos ddiwethaf, dywedodd 22% o bobl eu bod yn teimlo'n unig o bryd i'w gilydd ac roedd 16% yn teimlo'n unig drwy'r amser neu'n aml. Roedd tua 24% o bobl yn teimlo'n ynysig o bryd i'w gilydd, gyda 25% yn dweud eu bod yn teimlo fel hyn drwy'r amser neu'n aml. Dros y cyfnod hwn, roedd 58% yn dweud eu bod yn poeni am eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Cafodd y data canlynol eu defnyddio pan gafodd y rheol aros gartref ei llacio i'r rheol aros yn lleol yn 2020. Nid yw'r arolwg a oedd yn cynnwys y data wedi cael ei ddiweddarau ers mis Tachwedd 2020. Mae'n debygol bod y negeseuon allweddol isod yn berthnasol i'r llacio hwn oherwydd bod yr amgylchedd ym mis Mehefin 2020 yn edrych yn gymharol debyg i'r presennol.

Mewn dadansoddiad cyfun gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r arolwg ar iechyd a llesiant a gynhaliwyd rhwng 13 Ebrill a 7 Mehefin 2020, nodwyd pryderon penodol am y rheini sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed yn glinigol. Roedd 25% o unigolion agored i niwed yn poeni llawer am eu hiechyd meddwl a'u llesiant (o gymharu â 14% o'r rheini sydd ddim yn agored i niwed).

Mae dadansoddiad blaenorol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru¹ o ddata ei arolygon llesiant wythnosol (yn ystod y cyfnod rhwng 13 Ebrill a 10 Mai) yn nodi canfyddiadau demograffig allweddol ar gyfer pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n fwy tebygol o fod yn: hunanynysu (45% o bumed mwyaf difreintiedig y boblogaeth o'i gymharu â 31% o bumed mwyaf cefnog y boblogaeth); poeni'n fawr am eu hiechyd meddwl (30% o'i gymharu ag 17%); teimlo'n bryderus iawn (28% o'i gymharu ag 20%); a theimlo'n ynysig (29% o'i gymharu â 18%).

O ran rhywedd, mae menywod yn fwy tebygol o fod yn: hunanynysu (40% o'i gymharu â 33%); poeni llawer am eu hiechyd meddwl (25% o'i gymharu ag 20%); teimlo'n bryderus iawn (28% o'i gymharu ag 20%); a theimlo'n ynysig (29% o'i gymharu â 18%). Mae mwy o fenywod yn dweud bod y cyfyngiadau symud yn cael effaith negyddol ar eu cwsgr. Er eu bod yn dweud eu bod yn bwyta mwy o fyrbrydau ac yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn amlach na dynion yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws, mae menywod hefyd yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored ac wedi bod yn siarad â ffrindiau a theulu yn amlach nag y byddent fel arfer.

¹ <https://phw.nhs.wales/news/public-health-survey-reveals-bigger-impacts-of-novel-coronavirus-covid-19-and-restriction-measures-on-wellbeing-of-those-in-poorer-communities/>

Mae adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 'Coronavirus and Loneliness' ² (3 Ebrill – 3 Mai) yn ystyried sut mae'r coronafeirws wedi effeithio ar bobl sy'n byw gydag unigrwydd. Er bod hwn yn hen erbyn hyn, roedd yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl ag unigrwydd cronig ac unigrwydd y cyfnod clo yn poeni mwy am effaith COVID-19 ar eu llesiant o'i gymharu â phryderon eraill. Roeddent yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n bryderus neu dan straen; yn treulio gormod o amser ar eu pen eu hunain; yn teimlo eu bod wedi diflasu; ei fod yn effeithio ar eu hiechyd meddwl; yn rhoi straen ar berthnasau personol a bod ganddynt neb i siarad â nhw am eu problemau.

Cynhyrchodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddadansoddiad hefyd ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn edrych ar effaith Coronafeirws ar iselder ymysg oedolion. Roedd hyn yn dangos bod tua un rhan o bump o oedolion yn debygol o fod yn profi rhyw fath o iselder ym mis Tachwedd 2020, sydd bron i ddwywaith y cyfraddau a adroddwyd cyn y pandemig. Roedd hefyd yn dangos bod oedolion iau, menywod, y rheini nad oeddent yn gallu fforddio costau annisgwyl a phobl anabl yn fwy tebygol o fod yn profi iselder.³

Tystiolaeth ychwanegol:

- Mae data arolwg Ipsos Mori⁴ yn awgrymu bod 17% o'r cyfranogwyr yng Nghymru yn poeni am fethu mynd allan yn gyffredinol ac mae 20% o'r cyfranogwyr yng Nghymru yn poeni am eu hiechyd meddwl
- Mae arolwg Hafal o 300 o oedolion yng Nghymru⁵ yn awgrymu bod 73% o'r cyfranogwyr yn dweud bod y coronafeirws wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl
Mae astudiaeth hydredol⁶ y Sefydliad Iechyd Meddwl yn awgrymu bod 24% o oedolion y DU wedi teimlo'n unig oherwydd y coronafeirws ac mae'r teimladau o unigrwydd wedi mwy na dyblu ers y cyfyngiadau symud.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

I'r busnesau hynny sy'n gallu gweithredu, mae'n bosibl y byddai'r newid i ganiatáu i ragor o bobl gwrdd yn yr awyr agored yn arwain at effaith gadarnhaol fach gan y bydd mwy o weithgareddau'n gallu cael eu cynnal. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y newid yn annog pobl i gwrdd â phobl eraill pan na fyddent fel arall wedi gwneud, a gallai hynny arwain at wario mwy arian.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

2

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/coronavirusandlonelinessgreatbritain/3aprilto3may2020>

3

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/coronavirusandthesocialimpactsongreatbritain/11december2020#loneliness-of-adults-experiencing-some-form-of-depression-or-anxiety>

⁴ <https://www.ipsos.com/ipsos-mori/en-uk/Covid-19-and-mental-wellbeing>

⁵ <https://www.hafal.org/2020/04/survey-raises-concerns-about-the-provision-of-mental-health-services-in-wales-during-the-covid-19-outbreak/>

⁶ <https://www.mentalhealth.org.uk/our-work/research/coronavirus-mental-health-pandemic>

Gallai'r cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n symud effeithio ar ansawdd aer wrth i bobl ddechrau teithio'n bellach yng Nghymru ac i Gymru. Bydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd a'r cyfyngiadau ar drafnidiaeth gyhoeddus yn golygu y bydd yna fwy o ddefnydd ar gerbydau preifat a llai yn rhannu ceir. Mae teithio llesol yn cael ei hyrwyddo, ond ni fydd yn debygol o fod yn ymarferol ar gyfer teithiau hirach.

Gallai'r cynnydd yn y defnydd o fannau awyr agored gael effaith positif hefyd ar agweddau a chanfyddiadau pobl at nwyddau cyhoeddus amgylcheddol. Gallai hynny helpu i atgyfnerthu buddiannau amddiffyn yr amgylchedd wrth i ni gamu dros amser o'r cyfnod clo. Ond mae effeithiau amgylcheddol negyddol hefyd yn bosibl yn sgil gordyrru a sbwriela ac fe'u gwelwyd yn ddiweddar yng Nghymru ac mewn mannau sy'n boblogaidd â thwristiaid ledled Lloegr. Mae'r newid i ddarparu bwyd a diod têtawê yn sgil cadw'r cyfyngiadau ar dafarndai, caffis a bwytai wedi gwaethygu hyn. Gallai negeseuon cyhoeddus am yr angen i weithredu'n gyfrifol er mwyn diogelu'r amgylchedd ac osgoi mannau llawn pobl helpu i liniaru hyn. Mae'n debygol y bydd problemau o ran mwy o sbwriel oherwydd bwyd a diod têtawê yn parhau tan y caiff y cyfyngiadau ar safleoedd cysylltiedig eu llacio.

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl grwpiau a nodweddion gwarchoddedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn caniatáu i hyd at 30 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 neu ofalwyr o'r aelwydydd hynny) i gwrdd am unrhyw reswm yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gerddi preifat a lletygarwch awyr agored a fydd wedi effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol.

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|--|--|---|---|
| <i>Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i> | <p>Cadarnhaol: Bydd caniatáu i hyd at 30 o bobl o 30 o aelwydydd gwahanol i gwrdd am unrhyw reswm yn yr awyr agored, gan gynnwys mewn gerddi preifat, o fudd i'r rheini sy'n cael eu hynysu oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau, gan liniaru effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd neu allgáu digidol.</p> <p>Negyddol: Efallai y bydd pobl o bob oed, ond yn enwedig pobl hŷn, yn poeni bod mwy o risg dod i gysylltiad â'r feirws o ganlyniad i gynyddu nifer y bobl sy'n cael cwrdd yn yr awyr agored gan fod COVID-19 wedi cael effaith fwy difrifol ar bobl hŷn ac ar y rheini sydd â chyflyrau iechyd gwaelodol.</p> | <p>Mae amrywiaeth o ddata arolwg yn awgrymu mai pobl iau (18-29 oed) yw'r mwyaf tebygol o boeni am eu hiechyd meddwl, a'u bod yn fwy tebygol o deimlo'n ynysig na grwpiau eraill.</p> <p>Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o fod yn poeni am eu hiechyd a'r risg o ddal COVID-19. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r grŵp oedran hwn wedi cael y dos cyntaf o'r brechlyn o leiaf, felly gallai hynny leddfu rhai o'r pryderon.</p> | <p>Bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi i ddisgrifo'r risgiau wrth i bobl gwrdd mewn grwpiau mwy (hyd at 30 o bobl o 30 o aelwydydd) a sut orau i'w diogelu rhag trosglwyddo'r feirws (cadw pellter cymdeithasol).</p> <p>Canllawiau parhaus i'r rheini sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol i sicrhau bod risgiau ychwanegol yn cael eu hystyried pan fyddant yn yr awyr agored.</p> |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|--|---|--|
| <i>Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)</i> | Cadarnhaol: bydd pobl anabl nad oedd angen y ddarpariaeth cymorth a gofal arnynt yn cael cwrdd yn gymdeithasol gyda ffrindiau a theulu ychwanegol yn yr awyr agored gan gynnwys mewn gerddi preifat. | Roedd ein rheolau eisoes yn caniatáu i bobl anabl (gan gynnwys plant anabl) gael cymorth a gofal gan ffrindiau a theulu. Felly, roedd pobl anabl eisoes yn gallu cael cymorth a gofal os a phan roedd ei angen. Bydd y cynnydd yn y nifer cyn cynnig cyfleoedd pellach i bobl gwrdd â mwy o bobl, gan roi mwy o gyfleoedd iddynt gymdeithasu. | Ni chynigir unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol |
| <i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i> | <i>Cadarnhaol:</i> Efallai fod y cyfyngiadau wedi cyfyngu ar y gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth gan gael effaith negyddol ar lesiant. | <i>Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol</i> | Amh |
| <i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i> | <i>Cadarnhaol:</i> Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau ar gwrdd ag aelwydydd eraill wedi gwaethygu unigrwydd, teimlo'n ynysig neu'r gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth. | <i>Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol</i> | Amh |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|--|---|--|
| <i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i> | <p><i>Cadarnhaol:</i> Dim effeithiau gwahaniaethol penodol ar aelwydydd</p> <p><i>Negyddol:</i> Mae'n hysbys bod unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu mwy o risg yn sgil effeithiau'r coronafeirws ac fe allent fod yn fwy pryderus ynghylch llacio'r cyfyngiadau.</p> | | Gweithgareddau cyfathrebu cyffredinol ar y risgiau i grwpiau gwahanol a'r angen parhaus i bawb barhau i ddilyn canllawiau fel cadw pellter cymdeithasol a sicrhau hylendid da. |
| <i>Crefydd, cred a diffyg cred</i> | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol | Amh | Amh |
| <i>Rhyw / Rhywedd</i> | <i>Cadarnhaol:</i> Mae'n ymddangos bod y cyfyngiadau'n effeithio ar wahanol rywiau mewn gwahanol ffyrdd, a gellid lliniaru hyn drwy lacio'r cyfyngiadau. | Mae arolygon yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu, o boeni'n fawr am eu hiechyd meddwl, o deimlo'n bryderus ac o deimlo'n ynysig. Mae mwy o fenywod yn dweud bod y cyfyngiadau symud yn cael effaith negyddol ar eu cwsg. | Ni chynigir unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol |
| <i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i> | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol | Amh | Amh |
| <i>Priodas a phartneriaeth sifil</i> | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Roedd pobl a oedd yn briod neu'n cyd-fyw yn llai tebygol na'r cyfartaledd o deimlo'n unig (unigrwydd y 'cyfnod clo' a chronig) (arolwg barn a ffordd o fyw ONS, Mai 20) | Amh |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|--|---|--|--|
| <i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i> | <p>Cadarnhaol: Nid yw plant dan 11 oed yn cael eu cyfrif yn y 30 o bobl sy'n cael cwrdd cyn belled â'u bod yn dod o un o'r aelwydydd sy'n cwrdd.</p> <p>Bydd y llacio sy'n caniatáu i 30 o bobl dros 11 oed gwrdd yn caniatáu i fwy o bobl ifanc ymgynnull a chymdeithasu. Bydd hynny'n arwain at effeithiau mawr ar iechyd meddwl a lles.</p> | Y ddau brif fater i blant (12-18 oed) o ran cyfyngiadau yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'peidio â gallu ymweld ag aelodau o'r teulu' (59%) (arolwg Coronafeirws a Fi, Ionawr 2021) | Amh |
| <i>Aelwydydd incwm isel</i> | <p>Cadarnhaol: Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau ar gwrdd ag aelwydydd eraill wedi gwaethygu unigrwydd, teimlo'n ynysig neu'r gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth.</p> | Arolwg Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru: mae'r rheini sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu ac o deimlo'n bryderus ac ynysig yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws, yn ogystal â bod yn fwy pryderus am eu hiechyd meddwl. | Amh |

Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Disgrifir iechyd y cyhoedd fel rheswm derbyniol i gyfyngu ar y rhyddid hwn cyn belled â'i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Serch y cyfyngiadau sy'n parhau oherwydd y cyfnod clo, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|--|--|---|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | <i>Cadarnhaol:</i> bydd codi'r cyfyngiadau ar gwrdd â phobl eraill yn yr awyr agored yn hwyluso perthnasoedd teuluol trwy gyfyngu ar y cyfyngiadau a osodir gan y llywodraeth. Bydd y cyfyngiadau sy'n weddill ar aelwydydd yn parhau'n angenrheidiol ac yn gymesur am resymau iechyd cyhoeddus. | Roedd y cyfyngiadau'n seiliedig ar resymau iechyd y cyhoedd ac mae'r broses asesu ac adolygu'n ceisio eu dileu cyn gynted â phan na fyddant yn gymesur. Mae'r broses hon wedi arwain at y cynnig i godi'r cyfyngiad hwn. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Mae'r cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull yn gwrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- Erthygl 15 – Mae gan blant yr hawl i gwrdd â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau a chymdeithasau, cyn belled nad yw hynny'n atal pobl eraill rhag arfer eu hawliau hwythau.
- Erthygl 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Nid yw plant dan 11 oed yn cael eu cynnwys yn y cyfyngiadau ar gwrdd dan do. Bydd y llacio hwn yn lleihau'r cyfyngiadau ar blant hŷn ac yn caniatáu iddynt gwrdd â rhagor o'u ffrindiau yr un pryd. Parheir i gyfyngu ar yr hawliau hyn gan yr angen i atal y feirws rhag lledaenu a diogelu iechyd y cyhoedd (ee cadw pellter corfforol).

Mae'r arolwg Coronafeirws a Fi o 23,700 o blant yng Nghymru yn sicrhau bod safbwyntiau plant yn sail i ddewisiadau polisi (Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd yn eu barn nhw, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a bod eu barn yn cael ei hystyried). Mae'r arolwg wedi canfod mai'r ddwy reol aros gartref sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar sut mae pobl ifanc (12-18 oed) yn teimlo yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'pheidio â gallu ymweld ag aelodau'r teulu' (59%). I lawer, mae wedi bod yn bleser treulio mwy o amser gyda'r teulu, dysgu sgiliau newydd a mwynhau'r awyr agored mewn gerddi ac wrth ymarfer corff dyddiol.

I rai, mae'r cyfnod hwn hefyd wedi dod â rhyddhad o bwysau cymdeithasol ac iechyd blaenorol fel anawsterau iechyd meddwl neu fwlio.

Y Gymraeg

Ni chanfuwyd bod y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg. Yn gyffredinol, gallai'r gallu i gwrdd â phobl o hyd at bum aelwyd arall yn yr awyr agored gael; effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gwrdd â siaradwyr Cymraeg eraill ledled Cymru a thu hwnt. Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

ii. Aelwydydd Estynedig

EFFEITHIAU AR LESIANT

Mae'r gallu i ffurfio aelwydydd estynedig (gydag unrhyw ddwy aelwyd arall, yn ogystal ag aelwyd ag anghenion lles) yn golygu bod pobl, waeth beth yw eu hamgylchiadau, yn cael mwy o gysylltiad â grŵp mwy o bobl. Bydd hyn o les i bobl sydd wedi dioddef oherwydd unigrwydd ac o fod wedi'u hynysu. Ceir buddiannau penodol sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o aelwyd estynedig o ran gofal a chymorth, gan gynnwys gofal plant anffurfiol. Mae'r dystiolaeth isod yn ystyried y dystiolaeth gyffredinol sydd ynghylch teimlo'n unig ac ynysig, cyn ystyried y dystiolaeth ynghylch gofal a gofal plant.

Unigrwydd a theimlo'n ynysig

Ceir effeithiau negyddol mawr wrth gyfyngu ar allu pobl i gymdeithasu. Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arolwg ar iechyd a llesiant (1 i 7 Mawrth 2021), a phan ofynnwyd i bobl sut roeddent yn teimlo yn ystod yr wythnos ddiwethaf, dywedodd 22% o bobl eu bod yn teimlo'n unig o bryd i'w gilydd ac roedd 16% yn teimlo'n unig drwy'r amser neu'n aml. Roedd tua 24% o bobl yn teimlo'n ynysig o bryd i'w gilydd, gyda 25% yn dweud eu bod yn teimlo fel hyn drwy'r amser neu'n aml. Dros y cyfnod hwn, roedd 58% yn dweud eu bod yn poeni am eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Cafodd y data canlynol eu defnyddio wrth lacio'r rheolau i ganiatáu aelwydydd estynedig yn 2020. Mae'n debygol bod y negeseuon allweddol isod yn berthnasol i'r llacio hwn oherwydd bod yr amgylchedd ym mis Mehefin 2020 yn edrych yn gymharol debyg i'r presennol.

Mae astudiaeth gan y Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd (Mehefin 2020) yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng dirywiad mewn lles yn ystod y pandemig â chyfrifoldebau teuluol, amgylchiadau ariannol, a chydag oedran: effeithir llawer mwy ar yr ifanc nac ar yr hen. Wrth esbonio'r bwlch rhwng y rhywiau, gwelir bod rôl bwysig i ffactorau cymdeithasol. Mwy'n y byd oedd y rhwydwaith cymdeithasol cyn y pandemig, mwy'n y byd y mae llesiant yn dirywio ar ôl dechrau'r pandemig. Dywedodd menywod bod ganddynt fwy o ffrindiau agos cyn y pandemig na dynion, a'u bod yn teimlo'n fwy unig na dynion ar ôl i'r pandemig ddechrau.

Mewn dadansoddiad cyfun gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r arolwg ar iechyd a llesiant a gynhaliwyd rhwng 13 Ebrill a 7 Mehefin 2020, nodwyd pryderon penodol am y rheini sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed yn glinigol. Roedd 25% o unigolion agored i niwed yn poeni llawer am eu hiechyd meddwl a'u llesiant (o gymharu â 14% o'r rheini sydd ddim yn agored i niwed).

Mae dadansoddiad blaenorol gan lechyd Cyhoeddus Cymru⁷ o ddata ei arolygon llesiant wythnosol (yn ystod y cyfnod rhwng 13 Ebrill a 10 Mai) yn nodi canfyddiadau demograffig allweddol ar gyfer pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n fwy tebygol o fod yn: hunanynysu (45% o bumed mwyaf difreintiedig y boblogaeth o'i gymharu â 31% o bumed mwyaf cefnog y boblogaeth); poeni'n fawr am eu hiechyd meddwl (30% o'i gymharu ag 17%); teimlo'n bryderus iawn (28% o'i gymharu ag 20%); a theimlo'n ynysig (29% o'i gymharu â 18%).

O ran rhywedd, mae menywod yn fwy tebygol o fod yn: hunanynysu (40% o'i gymharu â 33%); poeni llawer am eu hiechyd meddwl (25% o'i gymharu ag 20%); teimlo'n bryderus iawn (28% o'i gymharu ag 20%); a theimlo'n ynysig (29% o'i gymharu â 18%). Mae mwy o fenywod yn dweud bod y cyfnod clo symud yn cael effaith negyddol ar eu cwsig. Er eu bod yn dweud eu bod yn bwyta mwy o fyrbrydau ac yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn amlach na dynion yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws, mae menywod hefyd yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored ac wedi bod yn siarad â ffrindiau a theulu yn amlach nag y byddent fel arfer.

Tystiolaeth ychwanegol:

- Mae data arolwg Ipsos Mori⁸ yn awgrymu bod 17% o'r cyfranogwyr yng Nghymru yn poeni am fethu mynd allan yn gyffredinol ac mae 20% o'r cyfranogwyr yng Nghymru yn poeni am eu hiechyd meddwl
 - Mae arolwg Hafal o 300 o oedolion yng Nghymru⁹ yn awgrymu bod 73% o'r cyfranogwyr yn dweud bod y coronafeirws wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl
- Mae astudiaeth hydredol¹⁰ y Sefydliad Iechyd Meddwl yn awgrymu bod 24% o oedolion y DU wedi teimlo'n unig oherwydd y coronafeirws ac mae'r teimladau o unigrwydd wedi mwy na dyblu ers y cyfyngiadau symud.

Mae adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 'Coronavirus and Loneliness'¹¹ (3 Ebrill – 3 Mai) yn ystyried sut mae'r coronafeirws wedi effeithio ar bobl sy'n byw gydag unigrwydd. Er bod hwn yn hen erbyn hyn, roedd yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl ag unigrwydd cronig ac unigrwydd y cyfnod clo yn poeni mwy am effaith COVID-19 ar eu llesiant o'i gymharu â phryderon eraill. Roeddent yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n bryderus neu dan straen; yn treulio gormod o amser ar eu pen eu hunain; yn teimlo eu bod wedi diflasu; ei fod yn effeithio ar eu hiechyd meddwl; yn rhoi straen ar berthnasau personol a bod ganddynt neb i siarad â nhw am eu problemau.

Cynhyrchodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddadansoddiad hefyd ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn edrych ar effaith Coronafeirws ar iselder ymysg oedolion. Roedd hyn yn dangos bod tua un rhan o oedolion yn debygol o fod yn profi rhyw fath o iselder ym mis Tachwedd 2020, sydd bron i ddwywaith y cyfraddau a

⁷ <https://phw.nhs.wales/news/public-health-survey-reveals-bigger-impacts-of-novel-coronavirus-covid-19-and-restriction-measures-on-wellbeing-of-those-in-poorer-communities/>

⁸ <https://www.ipsos.com/ipsos-mori/en-uk/Covid-19-and-mental-wellbeing>

⁹ <https://www.hafal.org/2020/04/survey-raises-concerns-about-the-provision-of-mental-health-services-in-wales-during-the-covid-19-outbreak/>

¹⁰ <https://www.mentalhealth.org.uk/our-work/research/coronavirus-mental-health-pandemic>

¹¹

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/coronavirusandlonelinessgreatbritain/3aprilto3may2020>

adroddwyd cyn y pandemig. Roedd hefyd yn dangos bod oedolion iau, menywod, y rheini nad oeddent yn gallu fforddio costau annisgwyl a phobl anabl yn fwy tebygol o fod yn profi iselder.¹²

Gofal plant

Mae nifer o astudiaethau Cymreig a rhyngwladol yn dangos bod coronafeirws yn cael, neu'n debygol o gael, effaith hir ar les plant a phobl ifanc. Mae'n gwaethygu teimladau o bryder, unigrwydd, ac anhapusrwydd ymhlith plant a phobl ifanc. Ceir tystiolaeth hefyd o ddirywiad yn natblygiad plant ac yn annibyniaeth plant wrth i blant gael eu cadw o'u lleoliadau¹³. Dangosodd ein harolwg bod llawer o bryder ymhlith darparwyr gofal plant ym mis Chwefror 2021 ynghylch datblygiad cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y plant yn eu gofal nad oeddynt wedi bod yn bresennol i'r un graddau ag o'r blaen oherwydd COVID-19¹⁴. Roedd rhai o'r plant wedi dychwelyd yn llai hyderus ac yn fwy pryderus. Roedd ambell blentyn hefyd yn llai annibynnol, er enghraifft yn ailddechrau yn y lleoliad gan ddefnyddio dymi neu yn ôl yn ei gewynnau er ei fod wedi'i hyfforddi i ddefnyddio'r toiled cyn hynny. Canfu astudiaeth debyg o ddarparwyr yn Lloegr effeithiau tebyg, felly mae'n debygol y byddai pryderon cyffredinol a nodwyd gan rieni mewn arolwg gan Ymddiriedolaeth Sutton¹⁵ yn Lloegr yn cael eu hadlewyrchu yma. Canfu fod y rhan fwyaf o rieni plant 2-4 oed a holwyd (56%) yn poeni am yr effaith ar ddatblygiad neu les cyffredinol eu plentyn dros y pandemig. O ran y rhesymau am y pryderon hyn, roedd dros ddwy ran o dair (69%) o rieni'n teimlo bod methu â chwarae gyda phlant eraill wedi cael effaith negyddol ar eu plentyn.

Mae cyfnodau hir o dan gyfyngiadau fel y rhai ar Lefel Rhybudd 4 yn cyfyngu ar gyfleoedd pawb i gael eu cyfoethogi gan yr amgylchedd, ond maent yn debygol o gael effaith arbennig o niweidiol ar blant iau. Mae adroddiad Babies in Lockdown¹⁶ yn disgrifio pryderon rhieni am yr effaith ar ddatblygiad eu plentyn. Er i wasanaethau gofal plant barhau ar agor drwy gydol Lefel Rhybudd 4, a bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi ar gael mynd i'r ysgol, mae'n bwysig cofio nad yw ysgol neu ofal plant ar gael i bob plentyn. I lawer mae cefnogaeth y teulu ehangach yn hollbwysig

Mae profi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs, e.e. camdriniaeth, aelwyd sy'n methu) yn gysylltiedig â llawer o ganlyniadau negyddol a brofir gydol bywyd unigolyn, er enghraifft, mwy o alcoholiaeth, camddefnyddio cyffuriau, iselder, ac ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad o'u cymharu â'r rhai wnaeth ddim eu profi (Ford et al 2019). Mae tystiolaeth yr arolwg wedi dangos bod ymddygiad afiach wedi cynyddu ymhlith rhai rhieni ers y pandemig, gan o bosibl beryglu plant. Gyda phlant yn treulio llai o amser mewn lleoliadau gofal plant, mae plant a allai fod yn agored i niwed yn llai gweladwy sy'n gwneud hi'n anoddach eu diogelu.

¹²

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/coronavirusandthesocialimpactsongreatbritain/11december2020#loneliness-of-adults-experiencing-some-form-of-depression-or-anxiety>

¹³ <https://www.gov.uk/government/collections/early-years-childcare-registering-with-ofsted>

¹⁴ Llywodraeth Cymru – Ton 2 'Arolwg o ofal a chwarae plant cofrestredig.

¹⁵ [Sutton Trust calls for early years to be at heart of education recovery plan - Sutton Trust](https://www.suttontrust.com/news/sutton-trust-calls-for-early-years-to-be-at-heart-of-education-recovery-plan)

¹⁶ <https://babiesinlockdown.files.wordpress.com/2020/08/babies-in-lockdown-main-report-final-version-1.pdf>

Mae plant cyn oed ysgol heddiw yn fwy tebygol hefyd o fod â rhieni hŷn, â llai o frodyr a chwiorydd ac o brofi amrywiaeth o gysylltiadau teuluol. Gall hynny ei gwneud hi'n fwy tebygol iddynt deimlo unigrwydd ac o fod yn ynysig gartref, a gallai lleoliad gofal plant roi sefydlogrwydd iddynt a allai fod ar goll gartref (Ford et al 2019).

Gan nad yw gofal plant anffurfiol yn cael ei reoleiddio, prin yw'r data ffurfiol ar ei ddefnydd. Mae dealltwriaeth rhieni o'r hyn yw gofal plant anffurfiol hefyd yn cyfyngu ar ganfyddiadau ymchwil sydd ar gael. Yn 2015/16 cynhaliwyd arolwg o'r defnydd o ofal plant gan Understanding Society. Dangosodd hyn:

- Mae plant Cymru a Gogledd Iwerddon yn fwy tebygol o fod mewn gofal plant anffurfiol na phlant yn Lloegr;
- Mae rhieni sengl yn fwy tebygol o ddefnyddio gofal plant anffurfiol a gwneud hynny am fwy o oriau nag aelwydydd dau riant;
- Mae'r rhai sydd ar incwm is yn fwy tebygol o ddefnyddio gofal plant anffurfiol.

O'r teuluoedd hynny yng Nghymru sy'n defnyddio gofal plant anffurfiol, roedd 38% yn defnyddio 10 awr neu lai yr wythnos gyda dim ond 10% yn defnyddio 70 awr neu fwy yr wythnos. Mae hyn yn cymharu â Lloegr lle'r oedd 45% yn defnyddio 10 awr neu lai o ofal plant anffurfiol yr wythnos a dim ond 8% yn defnyddio 70 awr neu fwy. Fodd bynnag, roedd 15% o aelwydydd un riant yng Nghymru yn defnyddio gofal plant anffurfiol am 70 awr neu fwy yr wythnos o'u cymharu â 6% o aelwydydd dau riant.

O edrych ar [Arolwg Cenedlaethol 2018-2019](#), o'r 48% o rieni plant 0 i 14 oed sy'n defnyddio gofal plant er mwyn cael gweithio, astudio neu hyfforddi, roedd 76% yn defnyddio gofal plant anffurfiol, gyda thua'u hanner yn gwneud hynny am 10 awr neu lai yr wythnos. Yn ogystal, roedd 7% o rieni yn talu teulu a ffrindiau i ddarparu gofal plant.

Roedd y math o ofal plant a ddefnyddiwyd hefyd yn amrywio yn ôl oedran y plentyn. Roedd 92% o'r plant hynaf (12-14) yn derbyn gofal gan deulu a ffrindiau (di-dâl) o'i gymharu â 73% o'r ieuengaf (0-4). Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu bod teuluoedd â phlant hŷn yn defnyddio llai o ofal plant ffurfiol ers COVID-19. Disgwylir i'r rhan fwyaf o deuluoedd â phlant iau ddefnyddio'r un nifer o oriau o ofal plant ffurfiol yn awr ag yr oeddynt cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth¹⁷.

Rydym wedi bod yn edrych hefyd ar batrymau defnyddio'r Cynnig Gofal Plant i Gymru. Ers cyflwyno'r Cynnig yn wreiddiol, mae'r nifer sy'n manteisio ar y Cynnig yng Nghymoedd y De wedi bod gryn dipyn yn is nag mewn rhannau eraill o Gymru. Mae adborth gan rieni ac awdurdodau lleol yn awgrymu mai'r rheswm am hyn yw bod yn well ganddynt ofal plant anffurfiol.

Rydym hefyd yn gweld defnydd cryf o ofal plant anffurfiol mewn teuluoedd sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn gysylltiedig â throsglwyddo'r iaith.

Gofalwyr di-dâl

Mae llawer o ofalwyr di-dâl yn gwrthod caniatáu i weithwyr gofal ddod i'w cartrefi er mwyn eu hamddiffyn eu hunain a'r person y maent yn gofalu amdano rhag COVID-19. Hefyd, mae pobl sydd ar ffyrlo neu sy'n gweithio gartref wedi gallu ysgwyddo'r

¹⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/the-impact-of-coronavirus-covid-19-on-childcare-use-for-tax-free-childcare-customers>

cyfrifoldebau gofalu a helpu dros dro. Er hynny, mae'r pwysau o ymdopi heb gymorth ffurfiol yn golygu bod llawer o ofalwyr wedi cysylltu â mudiadau'r trydydd sector am gymorth seicolegol.

Cynhaliodd Carers UK¹⁸ arolwg ar-lein rhwng 3-14 Ebrill 2020 o effaith COVID-19 ar ofalwyr. Gwelwyd bod tua 70% o ofalwyr yn gwneud mwy o waith gofalu nag o'r blaen ac roedd dros eu hanner (57%) yn teimlo eu bod yn cael eu llethu. Dangosodd arolwg dilynol Carers UK¹⁹ ym mis Medi 2020 fod dros dri chwarter (76%) y gofaluwr a ymatebodd yn dweud eu bod wedi ymlâdd yn llwyr oherwydd eu gwaith gofalu yn ystod pandemig COVID-19. Dywedodd 66% fod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu.

Mae sylwadau gan ofalwyr hefyd yn dangos bod cau gwasanaethau dydd allweddol a darpariaeth arbenigol wedi taro rhai grwpiau'n arbennig o galed, fel y rhai sy'n gofalu am bobl ag anabledd dysgu, awtistiaeth neu ddementia. Dywedodd llawer iddynt weld cynnydd mewn ymddygiad heriol gan nad yw'r person yn deall y newid yn ei amgylchiadau na'r rheolau newydd y mae'n rhaid eu dilyn.

Mae'r rhai a oedd yn gofalu cyn y pandemig yn fwy tebygol o fod yn darparu mwy o ofal nag o'r blaen ac am gyfnodau hirach heb seibiant (e.e. adroddiad Carers UK²⁰).

Mae'n bosibl na chafodd pobl sy'n cysgodi a phobl dros 70 oed fawr o gyswllt cymdeithasol dros y cyfnod clo, gan greu anawsterau arbennig i'r rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain. Efallai y bydd gofaluwr hefyd wedi treulio cyfnod estynedig ar eu pen eu hunain wrth ddarparu gofal, a allai fod wedi'u gwneud yn fwy pryderus, yn fwy unig, yn fwy blinedig ac o dan fwy o stres. Gall ynysu cymdeithasol hefyd fod wedi gwaethygu problemau iechyd unigolion a gofaluwr.

Daeth ein hymgyngoriad ar y Strategaeth newydd ar gyfer Gofaluwr Di-dâl²¹ i ben ym mis Ionawr 2021. Cawsom 71 o ymatebion i gwestiwn ynghylch effaith gofalu ar fywydau gofaluwr di-dâl. Thema gyffredin mewn atebion gan unigolion oedd eu bod yn unig ac wedi'u hynysu, yn aml oherwydd bod cyswllt a chymorth gan y teulu ehangach, neu gymorth ffurfiol gan weithwyr gofal cyflogedig, wedi lleihau neu wedi dod i ben yn llwyr. Dywedodd unigolion a sefydliadau fel ei gilydd bod iechyd meddwl yn dirywio, gyda llawer o ofalwyr yn profi pryder, straen ac iselder, ac o bosibl dirywiad yn eu hiechyd corfforol.

Byddai caniatáu i ffrind neu aelod o'r teulu o'r tu allan i'r cartref ddarparu gofal a chymorth yn dod â manteision ymarferol ac emosiynol ac yn helpu i leddfu straen a phryder. Gallai'r cymorth wyneb yn wyneb hwn fod o fudd arbennig i bobl â nam ar eu synhwyrâu neu sydd â chyflyrau ac anableddau eraill sy'n cyfyngu ar fywyd. Gallai cymorth emosiynol gynnwys treulio amser gyda'i gilydd i sgwrsio a rhannu pryderon. Gallai cymorth ymarferol gynnwys help gyda thasgau ar yr aelwyd, gofal plant neu help i fynd ar-lein a defnyddio skype neu facebook. Gallai hyn helpu i leddfu'r rhanriad digidol rhwng cenedlaethau.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

¹⁸ [Carers UK, Caring behind closed doors, April 2020](#)

¹⁹ [Carers UK, Caring behind closed doors 6 months on, September 2020](#)

²⁰ [Carers UK, Caring behind closed doors, April 2020](#)

²¹ [Cynllun Cenedlaethol i Ofalwyr | LLYW.CYMRU](#)

Gofal plant

Mae gofal plant yn bwysig i bobl allu gweithio ac i dwf economaidd. Mae gofal plant yn ei gwneud yn bosibl i nifer fawr o rieni weithio, ac ar sail arolygon a wnaed yn 2015/16, mae'r rhieni hyn yn cynhyrchu rhyngddynt [tua £1.2 biliwn o incwm y flwyddyn](#), gan gefnogi twf yr economi a lleihau tlodi ledled Cymru.

Credir bod y sector gofal plant wedi ehangu ers hynny, a bod mwy o famau yn arbennig wedi dechrau gweithio neu wedi dychwelyd i'r gwaith ar ôl cael plant. Disgwylir felly y byddai'r incwm blynyddol a gynhyrchir yn llawer uwch pe bai'r arolwg a'i gyfrifiadau wedi'u cynnal yn fwy diweddar.

Mae COVID-19 wedi cael, ac yn parhau i gael, effaith sylweddol ar y sector gofal plant a chwarae. Cyn dechrau'r pandemig, roedd 3,615 o leoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig yng Nghymru. Ar 18 Mai 2020 roedd tua 50% o'r ddarpariaeth yng Nghymru wedi hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru eu bod wedi cau dros dro oherwydd COVID-19, gyda'r mwyafrif yn esbonio mai'r niferoedd isel o blant a oedd yn bresennol oedd yr achos am hynny. Wrth ailagor y Cynnig Gofal Plant i geisiadau yn ystod haf 2020 a dychwelyd i drefn fwy arferol, agorodd llawer o ddarparwyr eu drysau eto. Ar 24 Mai 2021 dim ond 6% o'r lleoliadau oedd ar gau oherwydd COVID-19. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi cyllid ychwanegol sylweddol i helpu darparwyr i fod yn fwy cynaliadwy ac maent yn parhau i ddiweddarau'r [canllawiau](#) ar gadw lleoliadau gofal plant yn ddiogel i blant a staff.

Mae arolygon wedi dangos bod rhieni sy'n gallu gweithio gartref yn ei chael hi'n anoddach gweithio'n effeithiol yn ystod y pandemig oherwydd eu cyfrifoldebau gofal plant, ac i rai, mae'r cyfrifoldebau hynny'n rhwystr llwyr i weithio. Dywed rhieni mai cael hyd i ofal plant fydd y rhwystr mwyaf i aildechrau gwaith pan gaiff cyfyngiadau eu codi. Felly, mae problemau cael gafael ar ofal plant cofrestredig yn cyfyngu ar allu pobl i weithio ac ar yr economi (yn ariannol, ond hefyd o ran arloesedd, creadigrwydd ac ati sy'n cael eu sbarduno gan amrywiaeth o fewn y gweithlu a gofod meddwl).

Mae'r effaith wedi bod yn fwy andwyol eisoes ar fenywod nac ar ddynion; o ran bod gofal plant yn rhwystr i weithio gartref, a dychwelyd i'r gwaith, hyd yn oed mewn teulu dau riant lle dangoswyd bod dynion yn cyfrannu llai at ofal plant na menywod. Gallai'r ffordd y mae parau'n rhannu gwaith cyflog a chyfrifoldebau'r cartref yn ystod yr argyfwng gael effaith sy'n para ymhell wedi codi'r cyfnod clo. Os yw mamau, ar gyfartaledd, yn fwy tebygol o beidio â gwneud gwaith cyflog yn ystod yr argyfwng hwn (naill ai'n wirfoddol neu yn sgil colli swydd dros dro neu barhaol) ac yn fwy tebygol o ysgwyddo mwy o'r cyfrifoldebau domestig, gallai hynny fod yn fwy o ergyd hirdymor i'w henillion yn y dyfodol. Mae perygl i hyn felly myndro rhywfaint ar y cynnydd a fu o ran cau'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau.²²

Gofalwyr di-dâl

Gallai aelwydydd estynedig hefyd ei gwneud yn bosibl i bobl o fewn aelwyd aildechrau gweithio os ydynt wedi bod yn gofalu am unigolyn yn y cartref. Yn ôl adroddiad Carers UK:

- Mae cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cyfrifoldebau gofalu a gwaith yn dal i fod yn anodd, yn enwedig os nad yw'r trefniadau blaenorol, gan gynnwys ysgolion, gofal dydd ac aelodau eraill o'r teulu i helpu, bellach yn opsiwn i

²² <https://www.ifs.org.uk/publications/14860>

lawer. Mae 6% wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio ers dechrau argyfwng y coronafeirws.

- Mae 41% o bobl yn gweithio gartref. Gall trefnu gofal a gwaith gartref fod yn anodd, gydag effaith emosiynol peidio â gallu cymryd seibiant yn anodd i rai gofalwyr a'r amser a dreulir yn ceisio gweithio a jyglo gofal.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae'n annhebygol y bydd caniatáu aelwydydd estynedig yn cael effaith amgylcheddol sylweddol. Mae posibilrwydd y caiff rywfaint o effaith ar lefelau llygredd aer wrth i bobl deithio i ymweld â'u haelwydydd estynedig. Bydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd a'r cyfyngiadau ar drafnidiaeth gyhoeddus yn golygu y bydd yna fwy o ddefnydd ar gerbydau preifat a llai yn rhannu ceir. Mae teithio llesol yn cael ei hyrwyddo, ond ni fydd yn debygol o fod yn ymarferol ar gyfer teithiau hirach. Mae swyddogion adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd aer ers cyflwyno'r cyfnod clo, gyda llawer o sôn yn y cyfryngau am ansawdd aer sydd i bob golwg yn gwella. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi yn y dyfodol gyda'r nod o gadw gwelliannau yn ansawdd yr aer yn y dyfodol os medrir.

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl grwpiau a nodweddion gwarchoddedig wedi'i nodi isod

| <i>Grŵp neu nodwedd warchoddedig</i> | <i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i> | <i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i> | <i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?</i> |
|---|--|---|---|
|---|--|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| <p><i>Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i></p> | <p>Cadarnhaol: Bydd newid y rheolau ynghylch aelwydydd estynedig i gynnwys trydedd aelwyd yn dod â budd i bob grŵp oed, gan leihau effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd (problem arbennig i bobl ifanc) neu allgau digidol (i bobl hŷn).</p> <p>Mae aelwydydd ag anghenion lles (h.y. aelwyd ag un oedolyn cyfrifol neu berson 16-17 oed sy'n byw ar ei ben ei hun heb oedolyn) wedi'u cadw, sy'n golygu o dan rai amgylchiadau caiff pedwaredd aelwyd ffurfio rhan o'r aelwyd estynedig. Mae hynny'n golygu y bydd aelwydydd estynedig a ffurfiwyd o dan drefniadau'r 'swigen gefnogi' yn cael parhau. Dylai hynny leihau'r risg na chaiff yr aelwydydd hyn fanteisio ar y trefniadau hyn.</p> <p><i>Negyddol:</i> Efallai y bydd pobl dros 70 oed yn poeni am y cynnydd yn y risgiau iddynt o gymysgu gyda mwy o bobl.</p> <p><i>Negyddol:</i> Bydd y rheini sydd ddim wedi cael ymuno ag aelwyd estynedig yn teimlo'n fwy unig.</p> | <p>Mae ymatebion i arolygon yn awgrymu mai pobl iau (18-29 oed) yw'r mwyaf tebygol o boeni am eu hiechyd meddwl, a'u bod yn fwy tebygol o deimlo'n ynysig na grwpiau eraill.</p> <p>Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o fod yn poeni am eu hiechyd a'r risg o ddal COVID-19. Maent hefyd yn fwy debygol o gael eu hallgáu'n ddigidol.</p> <p>Yn ôl arolwg ffordd o fyw yr ONS (Mai 20), y rhai oedd fwyaf tebygol o deimlo'n unig oedd oedolion o oed gweithio sy'n byw ar eu pen eu hunain (e.e. dywedodd 13% o'r bobl 16-64 oed sy'n byw ar eu pen eu hunain eu bod yn dioddef unigrwydd cronig o'u cymharu â 5% mewn aelwydydd â dau oedolyn o oed gweithio). Nid oedd pobl hŷn yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n unig. Gwelwyd y cyfraddau uchaf ymhlith oedolion ifanc.</p> <p>Mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu ac o boeni fwy am ddal y feirws a chael salwch difrifol (arolwg llesiant ICC).</p> | <p>Dylai cyhoeddiadau a chanllawiau esbonio'r risgiau sy'n gysylltiedig â ffurfio aelwydydd estynedig er mwyn i'r rheini sy'n eu ffurfio allu gwneud penderfyniad doeth ynghylch eu ffurfio.</p> <p>Dylai negeseuon gynnwys cyngor i ystyried anghenion gofalu a chymorth wrth ffurfio aelwydydd. Dangoswyd yn Seland Newydd bod hyn wedi lleihau'r effeithiau negyddol ar bobl nad ydyn nhw'n cael ymuno â'r aelwyd estynedig os ydyn nhw'n deall bod gan bobl eraill anghenion mwy.</p> |
| <p><i>Anabledd (meddyliwch am wahanol)</i></p> | <p>Cadarnhaol: bydd aelwydydd estynedig yn lleihau effeithiau</p> | <p>Mae adborth gan ofalwyr yn dangos bod diffyg darpariaeth</p> | |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|--|--|--|
| <i>fathau o anabledd)</i> | <p>unigrwydd ac arwahanrwydd.</p> <p>Effaith gadarnhaol arall y llacio fydd cael rhannu anghenion/trefniadau gofalu neu gymorth â grŵp mwy o bobl.</p> | <p>arbenigol ar gyfer grwpiau penodol, fel y pobl sy'n gofalu am bobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth, neu ddementia, sy'n llai abl i ddeall ac ymdopi â newid yn eu trefniadau byw.</p> <p>Canfu astudiaeth UCL fod y rhai sydd wedi cael diagnosis iechyd meddwl yn profi mwy o unigrwydd</p> | |
| <i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i> | <p><i>Cadarnhaol:</i> Byddai llai o gyfleoedd wedi bod i fanteisio ar rwydweithiau cymorth, yn enwedig dan do. Bydd ffurfio aelwydydd estynedig o bosibl yn rhoi'r cyfleoedd i fanteisio ar y cymorth hwn.</p> | <p>Heb ganfod tystiolaeth benodol.</p> | Amh |
| <i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i> | <p><i>Cadarnhaol:</i> Problemau unigrwydd ac arwahanrwydd. Cyfyngiadau wedi bod ar gyfleoedd i fanteisio ar rwydweithiau cymorth.</p> | <p>Heb ganfod tystiolaeth benodol.</p> | Amh |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|--|--|--|
| <i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i> | Bydd cynyddu nifer yr aelwydydd y caniateir eu ffurfio yn cynyddu'r risgiau i grwpiau ethnig gwahanol o gofio'r dystiolaeth bod y pandemig wedi cael effaith anghymharus ar bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. | Yr ystod o dystiolaeth o'r effaith anghymharus ar bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (e.e. ONS, grŵp cynghori ar BAME yn Llywodraeth Cymru). | Dylai'r risgiau gael eu cyhoeddi a'u hystyried pan fydd unigolion yn penderfynu ffurfio 'swigen', yn enwedig os oes pobl yn y swigen sydd mewn mwy o risg o ledaenu'r feirws, gan gynnwys heb ddangos symptomau (e.e. plant ar ôl bod yn yr ysgol neu ofal plant, neu weithwyr gofal iechyd) |
| <i>Crefydd, cred a diffyg cred</i> | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. Efallai y bydd cyfleoedd i gyd- addoli o fewn aelwydydd estynedig yn esgor ar rai manteision. | Amh | Amh |
| <i>Rhyw / Rhywedd</i> | Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu, o boeni'n fawr am eu hiechyd meddwl, o deimlo'n bryderus ac o deimlo'n ynysig. Menywod sydd fwyaf tebygol o ddarparu'r gofal yn y cartref. Gallai'r cynnig felly gael effeithiau cadarnhaol trwy gynyddu'r cyfleoedd i gael help, ond gallai gael effeithiau negyddol os bydd yn cynyddu'r baich gofalu trwy ei estyn i aelwyd arall. | Menywod yw mwyafrif y rheini sy'n darparu gofal â thâl a heb dâl a mwyafrif y gweithwyr iechyd. Maent hefyd yn fwy tebygol na dynion o ddarparu gofal di-dâl yn y cartref (Grŵp Cyllideb y Menywod, COVID-19: Rhywedd a Chydraddoldeb). Gofalwyr sy'n gweithio: yn gorfod cadw'r ddysgl yn wastad rhwng croesawu gwasanaethau lleol a chadw person sy'n agored i niwed yn ddiogel. (<i>Carers UK</i>) | Dylai'r ffocws ar ofal a chymorth ar gyfer aelwydydd estynedig bwysleisio'r angen i leihau baich y rheini sydd â'r angen mwyaf. |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|--|
| <i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i> | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | Amh | Amh |
| <i>Priodas a phartneriaeth sifil</i> | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. <i>Cadarnhaol:</i> Bydd y rheini sy'n byw mewn aelwydydd gwahanol yn gallu ffurfio aelwydydd estynedig â'i gilydd | Mae pobl briod neu sy'n cydfyw yn llai tebygol ar gyfartaledd o deimlo'n unig (arolwg barn ac arolwg ffordd o fyw ONS, Mai 20) | Amh |
| <i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i> | <i>Cadarnhaol:</i> Bydd plant yn cael bod yn rhan o aelwyd estynedig gyda theulu a ffrindiau, gan leihau effeithiau negyddol bod ar wahân. | Y ddau brif fater i blant (12-18 oed) o ran y cyfyngiadau yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'peidio â gallu ymweld ag aelodau o'r teulu' (59%) (arolwg Coronafeirws a Fi, Ionawr 2021) | Amh |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|--------------------------------------|--|---|--|
| <i>Aelwydydd incwm isel</i> | <p>Cadarnhaol: Gallai estyn y rheol ar aelwydydd estynedig i gynnwys trydedd aelwyd fod o fantais arbennig i aelwydydd ar incwm isel sy'n cael trafferthion â gofal plant neu anghenion gofalu, yn ogystal â mynd i'r afael â'r lefelau uwch o ynysu a phryderon am iechyd meddwl.</p> <p>Mae aelwydydd ag anghenion lles (h.y. aelwyd ag un oedolyn cyfrifol neu berson 16-17 oed sy'n byw ar ei ben ei hun heb oedolyn) wedi'u cadw, sy'n golygu o dan rai amgylchiadau caiff pedwaredd aelwyd ffurfio rhan o'r aelwyd estynedig. Mae hynny'n golygu y bydd aelwydydd estynedig a ffurfiwyd o dan drefniadau'r 'swigen gefnogi' yn cael parhau. Dylai hynny leihau'r risg na fydd yr aelwydydd hyn yn cael manteisio ar y trefniadau hyn.</p> | <p>Arolwg Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru: mae'r rheini sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu ac o deimlo'n bryderus ac ynysig yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws, yn ogystal â bod yn fwy pryderus am eu hiechyd meddwl.</p> | Amh. |

Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Disgrifir iechyd y cyhoedd fel rheswm derbyniol i gyfyngu ar y rhyddid hwn cyn belled â'i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Serch y

cyfyngiadau sy'n parhau oherwydd y cyfnod clo, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| <i>Hawliau Dynol</i> | <i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i> | <i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i> | <i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</i> |
|---|--|--|--|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | <i>Cadarnhaol:</i> bydd estyn y rheol ynghylch aelwydydd estynedig i gynnwys trydedd aelwyd yn gyfraniad arwyddocaol at ddechrau adfer rhai cysylltiadau teuluol, er fesul cam i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac mewn ffordd gymesur. | Roedd y cyfyngiadau'n seiliedig ar resymau iechyd y cyhoedd ac mae'r broses asesu ac adolygu'n ceisio eu codi cyn gynted â nad ydynt yn gymesur mwyach. Mae'r broses hon wedi arwain at y cynnig i godi'r cyfyngiad hwn. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Mae'r cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull yn gwrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- Erthygl 15 – Mae gan blant yr hawl i gwrdd â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau a chymdeithasau, cyn belled nad yw hynny'n atal pobl eraill rhag arfer eu hawliau hwythau.
- Erthygl 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Gallai llacio'r rheolau er mwyn cael ffurfio aelwydydd estynedig sy'n cynnwys plant hwyluso mwy o gyswllt ag aelodau unigol o'r teulu. Fodd bynnag, byddai hyn yn annhebygol o liniaru'r cyfyngiadau sylweddol ar blant rhag cyfarfod a chael ymlacio a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau; er y bydd y graddau y gellid lliniaru hyn yn dibynnu ar natur yr aelwyd estynedig. Cyfyngir ar yr hawliau hyn o hyd gan yr angen i ffrwyno'r feirws a diogelu iechyd y cyhoedd (e.e. parhau i gadw pellter corfforol y tu allan i'r aelwyd estynedig).

Mae'r arolwg Coronafeirws a Fi o 23,700 o blant yng Nghymru yn sicrhau bod safbwyntiau plant yn sail i ddewisiadau polisi (Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd yn eu barn nhw, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a bod eu barn yn cael ei hystyried). Mae'r arolwg wedi canfod mai'r ddwy reol aros gartref sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar sut mae pobl ifanc (12-18 oed) yn teimlo yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'peidio â gallu ymweld ag aelodau'r teulu' (59%). I lawer, mae wedi bod yn bleser treulio mwy o amser gyda'r teulu, dysgu sgiliau newydd a mwynhau'r awyr agored mewn gerddi ac wrth ymarfer corff dyddiol. I rai, mae'r cyfnod hwn hefyd wedi dod â rhyddhad o bwysau cymdeithasol ac iechyd blaenorol fel anawsterau iechyd meddwl neu fwlio.

Y Gymraeg

Ni chanfuwyd bod y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg. Yn gyffredinol, gallai'r hawl i gwrdd mewn aelwyd estynedig gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg. Gallai alluogi siaradwyr Cymraeg i gwrdd â siaradwyr Cymraeg eraill ledled Cymru a thu hwnt. Gallai fodd bynnag wneud teuluoedd di-Gymraeg a oedd wedi bod yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg neu a oedd â bwriad i'w ddefnyddio, droi at ddefnyddio gofal plant anffurfiol o fewn eu haelwyd estynedig. Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg ond fe allai plant o dan oed ysgol o gartrefi di-Gymraeg fod yn llai parod i ddechrau ysgol a/neu gallai eu rhieni fod yn llai tueddol o ddewis addysg Gymraeg.

iii. Gweithgareddau wedi'u Trefnu

Dylid darllen yr asesiad hwn o'r effeithiau ar y cyd â'r asesiad o effeithiau y digwyddiadau mwy gan fod y newid yn y rheoliadau yn cyfuno'r hen reoliadau ar weithgareddau wedi'u trefnu o fewn y darpariaethau Cynulliadau a Reoleiddir o fewn y rheoliadau.

Mae digwyddiadau a reoleiddir yn cynnwys ystod eang o weithgareddau y gall pobl o unrhyw oed ddod ynghyd ar eu cyfer. Mae'n nhw'n cynnwys gweithgareddau y cyfeiriwyd atynt o'r blaen fel gweithgareddau wedi'u trefnu ac yn cynnwys digwyddiadau ar raddfa fwy, sy'n cynnwys ymhlith eraill:

- Chwaraeon tîm
- Dosbarthiadau ymarfer corff
- Cyfarfodydd grwpiau crefyddol a grwpiau cymorth
- Teithiau tywys
- Parkrun
- Arwerthiannau cist car
- Fetes
- Cyngherddau cerddoriaeth fyw
- Gwyliau Bwyd

Bydd cynulliadau a reoleiddir yn amrywio o ran maint a phenderfynir ar gapasiti'r gwahanol gynulliadau gan asesiad risg sy'n cynnwys cymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'i ledaenu. Mae mesurau rhesymol yn cynnwys sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol.

Y nifer fwyaf gaiff ddod i digwyddiad a reoleiddir yn yr awyr agored yw 4,000 o bobl o unrhyw oed (yn sefyll) a 10,000 o bobl o unrhyw oed yn eistedd.

Os yw'r gweithgaredd a drefnir yn digwydd dan do, uchafswm nifer y bobl 11 oed a throddod sy'n cael dod ynghyd yw 30.

Gall digwyddiadau a reoleiddir gynnwys gweithgareddau fel dathliadau, ond rhaid i'r rhain gael eu trefnu gan fusnes, corff cyhoeddus neu sefydliad elusennol, addysgol neu ddyngarol, clwb neu sefydliad gwleidyddol, neu gorff llywodraethu cenedlaethol camp neu weithgaredd arall. Rhaid i drefnydd y gweithgaredd fodloni'r gofynion yn y rheoliadau i gynnal asesiad risg a chymryd **pob cam rhesymol** i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'i ledaenu

Rhaid i gynulladau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, gan gynnwys dathliadau neu gynulladau cymdeithasol ehangach o deuluoedd a ffrindiau ddilyn y trefniadau ar gyfer cynnull â phobl eraill, sef hyd at 30 o bobl yn yr awyr agored. Mae'n bwysig parhau i gadw **pellter cymdeithasol**, gan gynnwys yn yr awyr agored yn ystod y digwyddiadau hyn

Rhaid i gynulladau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan gynnwys dathliadau neu gynulladau cymdeithasol ehangach o deuluoedd a ffrindiau dan do ddilyn y trefniadau ar gyfer cynnull â phobl eraill, sef aelwyd unigol neu aelwyd estynedig mewn cartrefi preifat yn unig neu hyd at chwech o bobl o hyd at chwe aelwyd (heb gynnwys plant o dan 11 oed neu ofalwyr o'r aelwydydd hyn) mewn safleoedd a reoleiddir. Mae'n bwysig parhau i gadw **pellter cymdeithasol**, gan gynnwys yn yr awyr agored yn ystod y digwyddiadau hyn.

EFFEITHIAU AR LESIANT

Mae nifer o astudiaethau Cymreig a rhyngwladol yn dangos bod coronafeirws yn cael, neu'n debygol o gael, effaith barhaol ar les pobl²³. Mae'n gwaethygu teimladau o bryder, unigrwydd, ac anhapusrwydd ymhlith pobl, hynny yn aml oherwydd diffyg cysylltiad â phobl eraill.

Mae'r What Works Centre for Wellbeing yn nodi tystiolaeth gref y gall y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol cyfranogol wella llesiant pan fyddant yn dod â chyfranogwyr ynghyd yn yr un gofod ffisegol²⁴. Gall y cyfyngiadau presennol ar unigolion gyfyngu ar fanteision cymryd rhan gyda'n gilydd yn y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant.

Mae gweithgareddau wedi'u trefnu, yn enwedig chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn cyfrannu at leihau unigrwydd a theimladau o fod yn ynysig, gan ein helpu i fod yn genedl iach ac egnïol. Maen nhw'n rhan annatod o'r agenda ataliol ehangach ar draws ystod o feysydd ar draws y llywodraeth. Mae tystiolaeth wyddonol dda y gall bod yn gorfforol egnïol ein helpu i fyw bywydau iachach a hapusach. Gall ymarfer corff rheolaidd leihau'r risg o lawer o gyflyrau cronig gan gynnwys clefydau'r galon, strôc, diabetes math 2, dementia, rhai mathau o ganser, gordewdra, problemau iechyd meddwl a chyflyrau cyhyrsgerberbydol.

Dangosodd canlyniadau arolwg a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru a gynhaliwyd gan Savanta ComRes ar 8-12 Mai 2020 fod pobl yn gwneud llai o weithgarwch corfforol ar hyn o bryd.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn talu ar ei ganfed o ran y manteision sy'n ganlyniad i ffordd iach ac egnïol o fyw. Mae cymryd rhan yn y campau ac ymarfer corff yn rheolaidd yn yr awyr agored yn lleihau dibyniaeth pobl ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol, yn lleihau lefelau salwch, yn cynyddu cynhyrchiant ac yn cyfrannu at Gymru wyrddach drwy deithiau llesol.

Mae sawl dimensiwn i fanteision chwaraeon ac ymarfer corff. Yn 2019, cyhoeddodd Chwaraeon Cymru Adroddiad Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI). Roedd y dadansoddiad, a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon

²³ Gweler er enghraifft

https://whatworkswellbeing.org/blog/places-spaces-and-loneliness-what-matters-for-participatory-art-and-sport/?mc_cid=c975bde8f8&mc_eid=e4236b0dbe

(SIRC) ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, yn mesur cyfraniad ehangach chwaraeon yng Nghymru. Canfu'r adroddiad:

- Am bob £1 a fuddsoddir mewn chwaraeon yng Nghymru, ceir £2.88 yn ôl.
- Cynhyrchwyd gwerth £3,428m o fanteision i gymunedau Cymru trwy gymryd rhan a gwirfoddoli mewn chwaraeon yn 2016/17.
- O ddadansoddi'r cyfanswm, gwelir mai gwerth cymdeithasol gwella cyfalaf cymdeithasol yw £651.47m; gwella addysg yw £91.15m; gostwng lefelau troseddu yw £2.17m a gwella iechyd yw £295.17m.
- Mae llesiant goddrychol yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir yng Nghymru (60.6%).
- Tyfodd y diwydiant chwaraeon yng Nghymru 10% i £1,142m yn 2016/17. Canfuwyd bod y sector chwaraeon yn cynhyrchu mwy na'r diwydiannau fferyllol, teithio, llety a thecstilau yng Nghymru.
- Cyfrannodd yr economi chwaraeon £1,182m trwy Wariant Defnyddwyr ar Chwaraeon gan greu 29,700 o swyddi yn ymwneud â chwaraeon yn yr un flwyddyn.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae effeithiau amgylcheddol caniatáu i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored ac yn benodol gweithgarwch corfforol yn debygol o fod yn isel iawn o ystyried nad yw'r rhan fwyaf o weithgareddau'n gysylltiedig â thechnoleg sy'n cyfrannu at allyriadau. Bydd cyfleusterau'n cael eu defnyddio'n lleol yn bennaf, heb unrhyw gynnydd sylweddol disgwylidiedig mewn allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio i ddefnyddio cyfleusterau.

Fel ailgychwyn gweithgarwch mewn sectorau eraill, gall llacio cyfyngiadau gynyddu'n ddamcaniaethol y rhesymau sydd gan bobl dros ddefnyddio cludiant preifat, ond nid yw'n hysbys ar hyn o bryd a fydd hyn yn cael effaith sylweddol ar allyriadau cyfwerth â CO2 cyffredinol nac ar ansawdd aer.

Gallai'r cynnydd yn y defnydd o fannau awyr agored gael effaith positif hefyd ar agweddau a chanfyddiadau pobl at nwyddau cyhoeddus amgylcheddol. Gallai hynny helpu i atgyfnerthu buddiannau amddiffyn yr amgylchedd wrth i ni gamu dros amser o'r cyfnod clo.

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl grwpiau a nodweddion gwarchoddedig wedi'i nodi isod.

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|--|--|---|--|
| <i>Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i> | <i>Cadarnhaol:</i> Mae cael mynd i weithgareddau wedi'u trefnu yn cael effaith gadarnhaol ar les meddyliol a chorfforol. | Mae'r risg o'r canlyniadau negyddol i'r iechyd o ddal COVID-19 yn cynyddu gydag | |

| | | | |
|--|--|---|---------------|
| | <p>Mae gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer plant dan 18 oed wedi bod yn cael eu cynnal ers tro ac eisoes yn cael effaith gadarnhaol. Bydd pob oed yn elwa ar y newid hwn, ond yn enwedig pobl hŷn sydd wedi ymddeol – efallai eu hunig gysylltiad â phobl eraill yw trwy weithgareddau fel golff, celf ac ati.</p> | <p>oedran, ond mae bod yn yr awyr agored yn yr heulwen, cadw pellter cymdeithasol a chadw dwylo'n lân yn eu lleihau.</p> | |
| <p><i>Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)</i></p> | <p>Niwtral: yn gyffredinol, dylai pobl ag anableddau gael elwa ar yr un cyfleoedd â phawb arall i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau wedi'u trefnu yn yr awyr agored. Ond gallai manteision gweithgareddau grŵp arbenigol, fod yn fwy os gall trefnwyr gweithgareddau o'r fath sicrhau eu bod yn ateb y gofyn o ran diogelwch COVID.</p> | <p>Bernir bod caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu yn beth cadarnhaol gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol mwy diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol.</p> | <p>Amh. .</p> |
| <p><i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i></p> | <p>Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. Ond mae rhai unigolion wedi dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn hyfforddi mewn grwpiau/gweithgareddau wedi'u trefnu nag ar eu pen eu hunain.</p> | <p>Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn ond credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol mwy diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a</p> | <p>Amh</p> |

| | | | |
|---|---|--|------|
| | | gwella lles meddyliol a chorfforol. | |
| <i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol fawr. Ond gallai fod yn fwy diogel i fenywod beichiog hyfforddi o dan law arbenigwr nag ar eu pen eu hunain. | Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn ond credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol mwy diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | |
| <i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol mwy diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | Amg. |
| <i>Crefydd, cred a diffyg cred</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio | Amh. |

| | | | |
|---|--|---|------|
| | | cymdeithasol mwy diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | |
| <i>Rhyw / Rhywedd</i> | Mae posibilrwydd y bydd y manteision i ddynion yn fwy gan eu bod yn cymryd mwy o ran mewn chwaraeon. | Gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol mwy diogel, bydd yn lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd. Bydd yn gwella lles meddyliol a chorfforol trwy gynyddu gweithgarwch. | |
| <i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol mwy diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | Amh. |
| <i>Priodas a phartneriaeth sifil</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol mwy diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a | Amh |

| | | | |
|--|--|--|-----|
| | | gwella lles meddyliol a chorfforol. | |
| <i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i> | Mae gweithgareddau awyr agored a dan do wedi'u trefnu ar gyfer plant o dan 18 oed eisoes yn cael eu caniatáu. | Mae gweithgareddau awyr agored a dan do wedi'u trefnu ar gyfer plant o dan 18 oed eisoes yn cael eu caniatáu. | Amh |
| Aelwydydd incwm isel | <i>Cadarnhaol:</i> Er bod y dystiolaeth yn awgrymu nad yw lefelau net gweithgarwch corfforol wedi newid fawr ddim yng Nghymru, gwelir effaith wahaniaethol yn ôl cefndir cymdeithasol economaidd ar oedolion a phlant. Mae'r rheini o gefndiroedd cymdeithasol economaidd uwch yn gwneud mwy o ymarfer corff na chyn yr argyfwng ac mae'r rheini o gefndir cymdeithasol economaidd is yn gwneud llai. Bydd gweithgarwch ailalluogi yn cynyddu cyfleoedd i'r rheini o gefndir cymdeithasol economaidd is i wneud ymarfer corff. | Arolwg Chwaraeon Cymru gan Savanta ComRes o 8-12 Mai 2020: Ceir cryn amrywiaeth serch hynny o fewn rhai grwpiau demograffig. Ceir cynnydd net yn lefelau gweithgarwch y rheini o gefndir cymdeithasol economaidd uwch (+7 pwynt canran). Ond ceir gostyngiad net ymhlith y rheini o gefndir cymdeithasol economaidd is (-4 pwynt canran). Y rheini o gefndir cymdeithasol economaidd is sydd i'w gweld yn profi'r gostyngiad mwyaf (SES ISEL: Mwy 23% Llai 36% = -13 pwynt canran. SES UCHEL: Mwy 28% Llai 35% = -7 pwynt canran) | Amh |

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfnod clo yw diogelu hawl pawb i fywyd, gan arwain, am resymau iechyd y gellir eu cyfiawnhau, at gyfyngu ar hawliau i fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu. Disgrifir iechyd y cyhoedd fel rheswm derbynol i gyfyngu ar y rhyddid hwn cyn belled â'i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Serch y cyfyngiadau sy'n parhau oherwydd y cyfnod clo, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | Ni ddisgwylir effeithiau gwahaniaethol | Credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol mwy diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | Amh |

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Gall plant a phobl ifanc sydd **o dan 18 oed** ar 31 Awst 2020 gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu (cynulliadau a reoleiddir) dan do ac yn yr awyr agored heb unrhyw derfynau uchaf ar y nifer sy'n cael dod ynghyd.

Gall oedolion, gan gynnwys gwirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol cymwys, ddod i'r gweithgareddau hyn os ydynt yn cyfrannu at eu trefnu, os ydy'r plant yn rhy ifanc i'w gadael ar eu pen eu hunain neu os yw'r gweithgaredd yn gofyn am eu cyfranogiad fel grŵp rhiant a babanod. Dylai oedolion, gan gynnwys rhieni, [gadw pellter cymdeithasol](#) a chadw at reolau hylendid dwylo ac anadlol bob amser a gwisgo gorchudd wyneb dan do (oni bai bod ganddynt esemptiad), a dylid cyfyngu'r niferoedd i'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod y gweithgaredd yn rhedeg yn ddiogel.

Mae'r llacio wedi cyfrannu at yr Erthyglau canlynol:

- **Erthygl 15** – Mae gan blant yr hawl i gwrdd â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau a chymdeithasau, cyn belled nad yw hynny'n atal pobl eraill rhag arfer eu hawliau hwythau.
- **Erthygl 31** – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Y Gymraeg

Ni chanfuwyd bod y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg. O fewn cynlluniau Llywodraeth Cymru ei hun i sicrhau miliwn o siarad Cymraeg erbyn 2050 a ddisgrifir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**, pwysleisir pwysigrwydd

hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â chynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg. Ail thema Cymraeg 2050 yw **Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg** : *Mae angen cyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrediad o sefyllfaoedd sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn eu ffordd o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd ar lefel y teulu, yn y gweithle, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, neu fel aelodau o rwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach a all fod ar wasgar ym mhedwar ban byd.*

iv. Priodasau, partneriaethau sifil a the angladdau

EFFEITHIAU AR LESIANT

Mae tystiolaeth yr arolwg yn rhoi ciplun o lesiant meddyliol ledled Cymru wrth i'r cyfyngiadau barhau. Roedd *Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau'r Coronafeirws* Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar gyfer yr wythnos 1 i 7 Mawrth, wedi dangos bod 27% yn poeni llawer am eu hiechyd meddwl (31% ychydig), a dywedodd 49% fod eu hiechyd meddwl yn waeth na chyn y pandemig. Fe wnaeth yr elusen iechyd meddwl Mind gyhoeddi tystiolaeth o arolwg y llynedd, a oedd yn awgrymu bod iechyd meddwl dros hanner yr oedolion a'r bobl ifanc yn y DU wedi dirywio ers i'r cyfyngiadau symud fod mewn grym, gyda'r effaith waethaf ar bobl ifanc.²⁵

Mewn arolwg Ipsos a gynhaliwyd ganol mis Mawrth, gwelwyd mai'r gweithgaredd y mae pobl yn gweld ei eisiau fwyaf o hyd yw bwyta dan do mewn bwyty (gan 73%) a chymdeithasu gyda phobl y tu allan i'w haelwyd (gan 65%). Mae darlun cymysg o gwmpas cysur lletygarwch dan do, gyda 50% yn dweud y byddent yn gyfforddus yn bwyta dan do mewn bwyty am eu bod wedi cael eu brechu, a 30% yn dweud na fyddent. Mae'r un arolwg yn awgrymu bod bron chwarter (23%) y bobl sy'n gweithio yng Nghymru wedi gweld eu cyflogau'n gostwng oherwydd y pandemig sy'n debygol o arwain at bryderon ehangach, gyda chwarter (23%) yn dweud am bryderon ynghylch gallu darparu ar gyfer eu teuluoedd.²⁶

Mae wedi'i sefydlu bod diweithdra'n gysylltiedig â lefelau llesiant isel ac iechyd sy'n dirywio. Bydd mwy a mwy o bobl sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn teimlo effeithiau niweidiol os byddant yn ymuno â'r farchnad lafur yn ystod dirywiad economaidd. Mae tystiolaeth academaidd y gall profiadau niweidiol yn y farchnad lafur mewn dirwasgiad gael effeithiau gydol oes ar yr economi, iechyd, llesiant a hyd yn oed disgyliad oes pobl ifanc.²⁷

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Arwyddocâd economaidd y sector

Yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd yr holl sector *Gwasanaethau Bwyd a Diod*, sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi ehangach ar gyfer priodasau a digwyddiadau tebyg, wedi cyfrannu £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru yn 2018, a oedd gyfwerth â 2% o gyfanswm GVA y flwyddyn. Yn 2019, gan ddefnyddio data Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), amcangyfrifwyd bod

²⁵ Mind (2020) The mental health emergency: How has the coronavirus pandemic impacted our mental health?

²⁶ Ipsos (2021) Covid-19 report – Wave 36 [26-30 March]. **DATA FOR INTERNAL USE ONLY**

²⁷ Gweler: <https://voxeu.org/article/impact-covid-19-chronic-health-uk>

85,500 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y sector 'Lletygarwch - Tafarndai, Caffis a Bwytaï' yng Nghymru, 6.7% o gyfanswm y gyflogaeth.²⁸

Mae'r sector lletygarwch hefyd yn hanfodol i'r economi sylfaen. Mae cwmnïau lleol yn aml yn prynu bwyd a diod gan gyflenwyr lleol. Mae'n amlwg bod cau'r sector lletygarwch yn effeithio ar y sector cyflenwi bwyd a diod – er enghraifft, mae 50% o'r llaeth a gyflenwir gan ffermwyr yn mynd i'r sector lletygarwch yn gyffredinol. Er bod y defnydd domestig wedi codi 15%, nid yw hyn yn gwneud iawn am y gostyngiad o'r sector lletygarwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod camu i mewn i gefnogi ffermwyr o ganlyniad. Mae dadansoddiad gan Brifysgol Caerdydd (2010) a Llywodraeth yr Alban (2019)²⁹ yn helpu i roi amcangyfrif dangosol o gyflogaeth anuniongyrchol (cadwyn gyflenwi) o rhwng 6,700 ac 8,100 o bobl ychwanegol, gydag ystod debyg (6,500 i 7,600) o gyflogaeth y gellir ei phriodoli i effeithiau a ysgogwyd (gwariant), er y dylid trin y niferoedd hyn yn ofalus. Felly, gallai cyflogaeth uniongyrchol, anuniongyrchol ac a ysgogwyd yn y sector gynrychioli tua 87,500 o swyddi.

Maint y sector a'i gadwyn gyflenwi yng Nghymru

Mae'r sector yn cynnwys amrywiaeth eang o leoliadau sy'n cynnwys lleoliadau priodasau mewn tai gwledig, canolfannau ysguboriau, plastai, cestyll (rhai ohonynt yn eiddo i Cadw), gwestai, swyddfeydd cofrestru, mannau addoli, atyniadau ac amgueddfeydd, cyrsiau golff, lleoliadau digwyddiadau, lleoliadau chwaraeon, bwytaï a thafarndai, lleoliadau dinesig fel clybiau cymdeithasol, lleoliadau awyr agored a pharciau.

Mewn ymgynghoriad â'r sector, ein hamcangyfrif gorau yw bod tua 600 o fusnesau cofrestredig yng Nghymru sydd â thrwydded ddilys i gynnal priodasau. Y tu hwnt i hynny, mae'r gadwyn gyflenwi sy'n cefnogi'r sector priodasau yn enfawr ac mae'n cynnwys Cofrestryddion, Lleoliadau, Arlwyyo, Cacennau, Blodau, Lluniau a Fideos, Adwerthu, Deunyddiau Papur, Bandiau/ DJs, Ceir/Cludiant, Pebyll mawr, Propiau a rhentu, Gwallt a Cholur, Teithio a Thwristiaeth, Staff Cefnogi, Sioeau Masnach Priodasau, Llwyfannau Cyfryngau. Rhagwelir y bydd o leiaf 10 busnes yn cyflenwi ac yn cefnogi pob un briodas mewn lleoliad.

Mae priodasau a digwyddiadau personol arbennig eraill yn sbardun i dwristiaeth gan fod gwesteion yn teithio i'r digwyddiad. Yn 2019 roedd 2.8 miliwn o ymweliadau dydd a 96,000 o deithiau dros nos yng Nghymru gan bobl a oedd wedi dod i ddiwyddiad personol (ee priodas, bedydd, seremoni graddio). Roedd hyn wedi golygu bod cyfanswm gwariant gan yr ymwelwyr hynny, gan gynnwys llety a'r holl gostau eraill, yn £430m.³⁰

Ffeithiau allweddol³¹:

Gwerth y sector yng Nghymru

²⁸ Diffiniad o god 2 ddigid SIC2007 (56) Bwytaï a gwasanaethau bwyd teithiol a 563 gweithgareddau gweini diodydd

²⁹ Gan ddefnyddio lluosydd cyflogaeth math I (1.11) / II (1.20) 2007, ar gyfer y sector 'Gwestai, bariau a bwytaï' yng Nghymru ([yma](#)) a lluosydd cyflogaeth math I (1.09) / II (1.20) ar gyfer y sector 'gwasanaethau bwyd a diod' yn yr Alban ([yma](#)).

³⁰ [GB Day Visit Survey a GB Tourism Survey](#)

³¹ Arolwg Tasglu Priodasau'r DU o dros 3000 o fusnesau priodas 24ain Rhag 2020 – 12fed Ion 2021

| | |
|--|---------|
| Cyfanswm cost gyfartalog gwariant Priodasau yng Nghymru: | £17,236 |
| Gwariant cyfartalog ar leoliadau yng Nghymru: | £5,283 |
| Nifer y Priodasau a gynhaliwyd yng Nghymru yn 2019: | 13,197 |
| Nifer y lleoliadau priodasau trwyddedig yng Nghymru: | 578 |

Nifer y Priodasau yng NGHYMRU:

13,197 y flwyddyn

Cafodd tua 10,420 o briodasau eu gohirio yn 2020

Mae 74% o fusnesau priodas yn dweud eu bod wedi colli rhwng 76% a 100% o'u trosiant ers y cyfnod clo cyntaf.

Amcangyfrif o Weithwyr yn y Diwydiant Priodasau - CYMRU³²:

2,580 o fusnesau

18,920 o weithwyr

11,825 o bobl ar-y-diwrnod + 7,095 mewn swyddogaethau cefnogi gan gynnwys y gadwyn gyflenwi

Y Gweithlu

Mae'r gweithlu lletygarwch a thwristiaeth yn tueddu i gynnwys cyfran anghymesur o bobl sydd wedi cael addysg is, pobl iau, Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac maent yn ennill cyflogau sy'n is o lawer na chyfartaledd Cymru (canolrif) – mae llawer o'r rhain yn grwpiau sydd fel arfer yn profi'r effeithiau cyson gwaethaf ar eu hiechyd, eu henillion, a'u potensial cyflogaeth o ganlyniad i ddirywiad economaidd.

Cadwyn gyflenwi / gwerth lletygarwch i economi Cymru a'r gadwyn gyflenwi twristiaeth a lletygarwch ehangach:

Yn 2018, roedd yr holl sector gwasanaethau bwyd a diod werth £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru. Roedd hyn gyfwerth â 2% a 1.2% yn y drefn honno o gyfanswm GVA y flwyddyn. Er nad yw ystadegau llif nwyddau marchnad fewnol y DU ar gael, bydd adwerthwyr Cymru mewn sawl achos yn prynu cynnyrch a nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu yn uniongyrchol gan gwmnïau yng Nghymru, felly mae'n debygol y bydd manteision cadwyn gyflenwi oherwydd bod mwy o weithgarwch economaidd yn cael ei ganiatáu yn y sector – fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur yr effaith honno.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Ni nodwyd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol o ganlyniad i gyfyngiadau yn y maes hwn, ac ni ragwelir unrhyw effeithiau o ganlyniad i'r mesurau llacio arfaethedig.

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion a grwpiau gwarchoddedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn dileu'r cyfyngiadau ar ddathlu digwyddiadau bywyd a fydd wedi effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r

³² Gwybodaeth am y diwydiant

risgiau o wneud addasiadau i fannau sy'n cael eu rheoleiddio nad ydynt yn ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chydreddoldeb mynediad.

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|--|--|---|---|
| <i>Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i> | <p>Cadarnhaol: Mae carfannau iau o'r boblogaeth yn fwy tebygol o lawer o weithio yn y sector hwn yng Nghymru na charfannau hŷn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd.</p> <p>Negyddol: Mae'r risgiau o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal COVID19 yn cynyddu ag oedran. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector.</p> | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 46% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli). | <p>Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.</p> <p>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae angen i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol.</p> |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|--|--|
| <i>Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)</i> | Cadarnhaol: Mae'r boblogaeth anabl yng Nghymru yn cynrychioli cyfran ychydig yn uwch o'r gweithwyr yn y diwydiannau Twristiaeth a Lletygarwch ehangach nag yn y gweithlu'n gyffredinol, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod cyfran uwch o bobl anabl yn gweithio yn y sector hwn yng Nghymru, gyda 19% o'r gweithlu yn cael eu hystyried yn anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach). | Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faterion posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi i gynnal Asesiad Effaith Integredig. Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae angen i fusnesau eu cynnal i nodi effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol. |
| <i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i> | <i>Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol</i> | Amh | Amh |
| <i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i> | Negyddol: Mae'n bosibl y bydd y cynlluniau i ailagor y sector yn arwain at ddefnyddio lleoliadau wedi'u rheoleiddio i gynyddu capasiti awyr agored gwirioneddol. Bydd hi'n bwysig gwneud yn siŵr nad yw hyn yn creu amgylcheddau peryglus i rieni â phlant ifanc neu bramiau. | Amh | Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o broblemau posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi i gynnal Asesiad Effaith Integredig. |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|--|
| <i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i> | <p>Cadarnhaol: Mae'r boblogaeth BAME yn fwy tebygol o weithio mewn Twristiaeth a Lletygarwch yng Nghymru na'r boblogaeth wyn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU.</p> <p>Negyddol: Mae'n bosibl bod pobl BAME yn wynebu risg anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal COVID-19. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector.</p> | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 12% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru yn dod o gefndir BAME (a dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli). | <p>Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.</p> <p>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y bydd angen i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol.</p> |
| <i>Crefydd, cred a diffyg cred</i> | Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailagor Mannau Addoli a'r Grŵp Seremonïau wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi rhoi cyngor ar y canllawiau ar gyfer seremonïau digwyddiadau bywyd fel angladdau, bedydd a bar neu bat mitzvahs. | Bydd caniatáu dathliad/derbyniad ar ôl seremoni digwyddiad bywyd yn caniatáu i'r teulu a'r unigolion (ond mewn ffordd gyfyngedig) gael y digwyddiad rodden nhw wedi'i gynllunio. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| <i>Rhyw / Rhywedd</i> | Cadarnhaol: mae cyfran y gweithwyr yn y sector sy'n fenywod ychydig yn uwch nag ar gyfer gweithlu Cymru yn gyffredinol. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 50% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |
| <i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i> | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | Amh | Amh |
| <i>Priodas a phartneriaeth sifil</i> | Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailagor Mannau Addoli wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi rhoi cyngor ar y canllawiau ar gyfer gweinyddu priodasau a ffurfio partneriaethau sifil. Mae'r sector Lletygarwch sy'n cynnwys grŵp rhanddeiliaid Lleoliadau Priodasau Cymru hefyd wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi cyfrannu gyda data a dadansoddiad o'r maint a'r effaith ar y sector. | Bydd caniatáu dathliad/derbyniad ar ôl priodas neu bartneriaeth sifil yn caniatáu i gyplau gael y diwrnod priodas (ond mewn ffordd gyfyngedig) roedden nhw wedi'i gynllunio. | |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|--|---|--|---|
| <i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i> | Negyddol: Gallai oedolion a gyflogir mewn lleoliadau, tafarndai, caffis a bwytaï fod â chyfrifoldebau gofal plant gyda'r sector. Mae'n bosibl bod cyfyngiadau'r cyfnod clo presennol wedi amharu ar fathau traddodiadol o ofal plant. | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2018 yn awgrymu bod gan 11,400 o'r oedolion sy'n gweithio yn y sector tafarndai a bwytaï blant o dan 16 oed. | Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau ar y sector gofal plant gyda'r bwriad o leddfu'r pwysau ar deuluoedd lle gallai fod angen i'r oedolion ddychwelyd i safleoedd ffisegol i weithio. |
| <i>Aelwydydd incwm isel</i> | Cadarnhaol: Drwy ganiatáu i aelodau o'r sector hwn ddychwelyd i weithio, gallai hynny leihau colledion swyddi. | Mae data dros dro o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau SIC 2 ddigid yng Nghymru. Ar gyfer Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod (cod SIC 56), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.28 – £3.91 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.19. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £197.30 yw'r canolrif – tua £243.50 yn is na chanolrif Cymru. Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod o leiaf 80% o weithwyr Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfnod clo yw diogelu hawl pawb i fywyd, gan arwain, am resymau iechyd y gellir eu cyfiawnhau, at gyfyngu ar hawliau i fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu. Disgrifir iechyd y cyhoedd fel rheswm derbyniol i gyfyngu ar y rhyddid hwn cyn belled â'i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Serch y cyfyngiadau sy'n parhau oherwydd y cyfnod clo, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| <i>Hawliau Dynol</i> | <i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i> | <i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i> | <i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</i> |
|---|---|--|--|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | <i>Cadarnhaol:</i> Mae derbyniadau priodas a the angladd weithiau'n cael eu cynnal mewn mannau lletygarwch. Felly bydd ailagor Lleoliadau, Tafarndai, Caffis a Bwytaï yn hwb i lawer o weithwyr yn y sector sydd efallai yn ennill llai na'r Cyflog Byw Cenedlaethol neu'r Isafswm Cyflog am eu bod yn derbyn 80% o'r incwm roeddent yn ei ennill cyn dechrau'r argyfwng, i fynd yn ôl i'r gwaith. | Mae data o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod gweithwyr yn y sector hwn yn ennill cryn dipyn yn llai na'r cyflog cyfartalog (canolrif) yng Nghymru a bod llawer yn debygol o fod yn ennill llai na'r Cyflog Byw Cenedlaethol/Isafswm Cyflog am eu bod ar ffyrlo. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |
| Mae Erthygl 12 yn diogelu hawl dynion a menywod o oedran priodasol i briodi a dechrau teulu. | Er bod cyplau wedi gallu priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ym mhob lleoliad a gymeradwywyd i gynnal seremoni, mae llawer wedi dewis peidio â bwrw ymlaen nes iddynt allu dathlu'r digwyddiad gyda ffrindiau a theulu. | Bydd caniatáu derbyniadau/dathliadau yn caniatáu i gyplau gael y diwrnod roeddent wedi'i gynllunio, er bod cyfyngiadau'n parhau | Heb ganfod effeithiau negyddol penodol. |

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae agor derbyniadau priodas yn yr awyr agored yn cefnogi'r gofyniad o dan Erthygl 31 bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. Mae priodasau yn rhan o'r profiadau a chyfleusterau a ddarperir i deuluoedd, a fydd yn sicrhau bod modd sicrhau cymaint o ganlyniadau â phosibl i blant a phobl ifanc.

Y Gymraeg

Mae 127,000 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr economi ymwelwyr – tua 9% o'r gweithlu. Mae'r economi yn hanfodol i greu'r amodau cymdeithasol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Mae llawer o ardaloedd sy'n Gymraeg yn bennaf yn dibynnu'n drwm ar dwristiaeth a lletygarwch am incwm a chyflogaeth. Mae canran uchel o fusnesau twristiaeth a lletygarwch mewn ardaloedd Cymraeg – er enghraifft mae dros draean y busnesau llety i dwristiaid wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Bydd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael budd o'r ffaith bod busnesau lletygarwch yn cael parhau i weithredu, oherwydd bydd yn helpu i greu a diogelu swyddi, ac mae'n bosibl y bydd hynny'n annog siaradwyr Cymraeg i aros a gweithio yno, a chynnal hyfywedd yr iaith yn sgil hynny.

v. Rinciau Sglefrio Iâ

EFFEITHIAU AR LESIANT

Ym mis Hydref 2020, cynhaliodd Chwaraeon Cymru ail arolwg i arferion pobl o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Roedd y canlyniadau'n dangos y meysydd canlynol o bwys ar effaith y cyfyngiadau symud ar lesiant corfforol a meddyliol.

- Mae'n ymddangos bod cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer corff yn rheolaidd, ac mae rhagor o bobl bellach yn gwneud ymarfer corff i reoli eu hiechyd meddwl a chorfforol. Roedd yr un ganran (62%) o bobl ag ym mis Mai – pan gynhaliwyd yr arolwg cyntaf – yn gwneud ymarfer corff i gefnogi eu hiechyd meddwl.
- Mae effaith yn dal i fod ar drefniadau ymarfer corff pobl ond nid yw'r effaith mor ddifrifol ag ydoedd yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol. Mae pobl yn gwneud mwy o ymarfer corff oddi cartref erbyn hyn.
- Roedd yr arolwg yn dangos bod lefelau gweithgarwch llawer o bobl wedi dychwelyd i'r un lefelau â chyn y pandemig. Fodd bynnag, mae menywod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud llai o weithgarwch na chyn y pandemig, ac mae'n ymddangos bod dynion yn gwneud mwy. Mae 40% o fenywod yn anghytuno â'r datganiad bod ganddynt fwy o amser yn awr i fod yn gorfforol egnïol.
- Mae anghydraddoldebau tebyg yn bodoli ar draws statws economaidd-gymdeithasol, cyflyrau hirdymor ac afiechyd, ac oedran. Er enghraifft, mae 22% o bobl yn dweud eu bod yn gwneud ychydig mwy o ymarfer corff nag oeddent cyn y pandemig ar y raddfa gymdeithasol uchaf, ac mae 20% o'r rhai sy'n dweud eu bod nawr yn gwneud llai o ymarfer corff na chyn y pandemig ar y raddfa gymdeithasol isaf.

- Dywedodd rhwng 20 a 25% o bobl eu bod wedi ymweld â champfeydd dan do, pyllau nofio a neuaddau chwaraeon. Fodd bynnag, o'r rhai a fynychodd sesiwn nofio neu gampfa dan do yn ystod yr wythnos cyn yr arolwg, roedd 80% yn teimlo'n gyfforddus, gan ddangos bod cyfleusterau'n rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i wneud i bobl deimlo'n ddiogel.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Fel rhan o adroddiad gwerthuso economaidd a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru, amcangyfrifodd Canolfan Ymchwil Diwydiant Chwaraeon Prifysgol Sheffield Hallam effaith cyfnod o gyfyngiadau symud ac yna modelu hyn dros flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys cyfnodau o normalrwydd, cyfyngiadau symud llawn, cyfyngiadau symud wedi'u rhannu'n haenau, a chyfnodau eraill lle'r oedd yr economi'n gweithredu gyda llai o gapasiti. I amcangyfrif effaith economaidd chwaraeon yn 2019, ychydig cyn yr achosion pan dybiwyd bod yr amodau'n 'normal', cafodd cyfraddau cymryd rhan mewn chwaraeon a phatrymau gwario eu cyfrifo. Roedd yr amcangyfrif a ddeilliodd o hyn yn awgrymu bod gwariant defnyddwyr, ychydig cyn y pandemig, wedi parhau i godi (7%), yn ogystal â gwerth ychwanegol gros a swyddi (5% y naill a'r llall). Roedd y gwariant hwn gan ddefnyddwyr sy'n gysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru yn £1.26bn, gwerth ychwanegol gros sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn £1.195bn ac amcangyfrifir bod cyflogaeth chwaraeon yn 31,100 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn awgrymu bod y patrymau twf a welwyd dros yr 20 mlynedd diwethaf yn debygol o barhau yn 2019 ymlaen.

Mae'r holl fuddsoddiadau a arweiniodd at dwf yn y gorffennol diweddar yn y fantol nawr oherwydd pandemig COVID-19. Mae canlyniad y model hwn yn awgrymu y gellir dangos bod cyfnod y cyfyngiadau symud caeth wedi lleihau gwariant defnyddwyr (-47%), gwerth ychwanegol gros (-50%), a chyflogaeth (-48%). Mae hyn yn golygu y byddai effaith economaidd chwaraeon yn cael ei haneru i bob pwrpas yn ystod y cyfyngiadau symud caeth.

Wrth gysylltu amodau'r cyfyngiadau symud gyda'r cyfnodau o adferiad dros flwyddyn (yn 2020), mae'r effaith net ar wariant defnyddwyr yn llawer mwy difrifol i'r sector chwaraeon yng Nghymru o'i gymharu â gwariant defnyddwyr y Deyrnas Unedig yn gyffredinol (-24% a -15% yn y drefn honno). Felly, mae gwariant defnyddwyr ar chwaraeon yng Nghymru wedi gostwng tua £303.4m. Roedd gwariant defnyddwyr ar chwaraeon wedi gostwng mewn rhai meysydd yn fwy nag eraill; mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn gweithgareddau chwaraeon anffurfiol fel rhedeg a beicio yn ystod y cyfyngiadau symud, a'r adwerthu ar-lein cysylltiedig (ee ffioedd mynediad yn disgyn 40% o'i gymharu â chynnydd o 16% mewn gwariant ar feiciau).

Yn 2020, disgwylir i economi'r Deyrnas Unedig fod wedi lleihau 10%. Ar yr un pryd, roedd gwerth ychwanegol gros sy'n ymwneud â chwaraeon yng Nghymru wedi

disgyn 20%, bron ddwywaith cymaint â'r gostyngiad yn y Deyrnas Unedig. Felly, amcangyfrifir bod gwerth ychwanegol gros yng Nghymru wedi gostwng £209m. Yng Nghymru, y gwerth ychwanegol gros sy'n cael ei gynhyrchu drwy chwaraeon gwylwyr oedd y gostyngiad mwyaf (-43%). Mae Ymddiriedolaethau Hamdden a Diwylliant Cymru yn parhau i weld colledion net o £292,000 y mis oherwydd bod eu cyfleusterau ar gau, sy'n golygu bod methdaliad yn bosibilrwydd go iawn.

Mae'n bwysig nodi y byddai'r amodau hyn wedi bod yn llawer gwaeth heb y buddsoddiad cychwynnol o £22.7 miliwn mewn pecynnau cymorth chwaraeon, yn ogystal â phecynnau anuniongyrchol eraill fel cronfeydd caledi awdurdodau lleol. Amcangyfrifir, heb fuddsoddiad, y gallai gwerth ychwanegol gros sy'n ymwneud â chwaraeon yng Nghymru fod wedi disgyn deirgwaith yn fwy nag economi'r Deyrnas Unedig. Byddai'r sector gwirfoddol yng Nghymru, er enghraifft, wedi gweld gostyngiad mwy fyth heb y cyfraniad hwn (-80% o'i gymharu â -50%). Ar ben hynny, byddai 15.2 mil o swyddi chwaraeon cyfwerth ag amser llawn mewn perygl o gael eu colli heb gymorth cyhoeddus. Ar ddiwedd y pecyn adfer ym mis Mawrth, daeth y pryderon hyn yn realiti byw unwaith eto.

Mae chwaraeon yn ddiwydiant economaidd mawr i Gymru. Mae'r rhwydwaith o ficrofusnesau sy'n gyrru'r economi chwaraeon wedi'i wreiddio yn eu cymunedau. Maen nhw'n ychwanegu gwerth go iawn o ran eu gallu i gefnogi cyflogaeth yn uniongyrchol yn ogystal â sut maen nhw'n gwasanaethu diwydiannau cysylltiedig. Cyn y pandemig, roedd twf cyson yn nylanwad chwaraeon ar gynnyrch economaidd yng Nghymru. Er bod hyn wedi dioddef ergyd ddramatig, mae dulliau polisi sy'n golygu bod modd dod â'r hwb economaidd hwn yn ôl i'r sector mewn ffordd synhwyrol, ddiogel a chynaliadwy. Byddai llacio'r cyfyngiadau ar gampfeydd, canolfannau hamdden a chyfleusterau ffitrwydd (gan gynnwys canolfannau cymunedol) yn gam pwysig yn hyn o beth.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Yn yr un modd â'r llacio arall, bydd dileu'r cyfyngiadau yn y maes hwn bron yn siŵr o gynyddu'r rhesymau i aelodau'r cyhoedd deithio. Mae data symudedd yn awgrymu er bod teithio wedi gostwng yn sylweddol pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud, eu bod wedi cynyddu'n raddol wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio (er eu bod yn dal i fod o dan eu lefelau cyn y cyfyngiadau symud ar gyfer y rhan fwyaf o fetrigau).

ASESU'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchoddedig wedi'i nodi isod.

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|--|---|
| <p>Oed (meddwl am wahanol grwpiau oedran)</p> | <p><i>Cadarnhaol: Bydd ailagor rhagor o safleoedd, gan ddarparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau ac atyniadau, yn fuddiol i bob grŵp oedran. Mae carfannau iau o'r boblogaeth yn fwy tebygol o lawer o weithio yn y sector chwaraeon a hamdden yng Nghymru na charfannau hŷn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y Deyrnas Unedig. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd.</i></p> <p><i>Negyddol: Mae'n bosibl y bydd pobl o bob oed, ond yn enwedig pobl hŷn, yn poeni am fwy o risgiau o ganlyniad i gynnydd yn nifer y bobl sy'n cwrdd dan do.</i></p> | <p><i>Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 31% o weithwyr yn y sector gweithgareddau chwaraeon yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli).</i></p> | <p>Amh</p> |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|--|--|---|
| <i>Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)</i> | <i>Cadarnhaol. Wrth i ragor o safleoedd ailagor, dylai pobl anabl elwa ar allu defnyddio amrywiaeth ehangach o wasanaethau a manteisio ar gyfleoedd eraill. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu mynediad gwell at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.</i> | <i>Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod pobl anabl yn cynrychioli 15% o'r gweithlu yn y sector Gweithgareddau Chwaraeon (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach).</i> | <i>Amh</i> |
| <i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i> | <i>Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol.</i> | <i>Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.</i> | <i>Amh</i> |
| <i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i> | Cadarnhaol: <i>Bydd ailagor rhagor o fusnesau, fel canolfannau sglefrio, yn darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau y bydd mamau/gofalwyr yn gallu eu mwynhau gyda phlant ifanc o bosibl.</i> | <i>Wrth i ragor o safleoedd agor, byddant yn elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer</i> | <i>Amh</i> |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|--|---|
| | | <i>y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.</i> | |
| <i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i> | <i>Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol.</i> | <i>Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 8% o'r gweithlu yn y sector Gweithgareddau Chwaraeon yn BAME, a bod y grŵp hwn yn cynrychioli 5% o'r gweithlu yn gyffredinol yng Nghymru.</i> | <i>Amh</i> |
| <i>Crefydd, cred a diffyg cred</i> | <i>Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol.</i> | | <i>Amh</i> |
| <i>Rhyw / Rhywedd</i> | <i>Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol.</i> | <i>Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 42% o weithwyr yn y sector Gweithgareddau Chwaraeon yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru.</i> | <i>Amh</i> |
| <i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i> | <i>Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol.</i> | | <i>Amh</i> |
| <i>Priodas a phartneriaeth sifil</i> | <i>Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol</i> | <i>Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai cyplau elwa'n gyffredinol ar ragor o</i> | <i>Amh</i> |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|--|---|--|---|
| | | <i>gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a ddylai hyrwyddo llesiant.</i> | |
| <i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i> | <i>Cadarnhaol: Bydd yn darparu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau ac i rhyngweithio'n gymdeithasol ar gyfer pobl ifanc.</i> | <i>Mae'r arolwg 'Coronafeirws a Fi' o tua 23,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn taflu rhywfaint o oleuni ar eu profiadau o bandemig y coronafeirws a'u hymatebion, eu gobeithion a'u pryderon ar gyfer y dyfodol (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).</i> | <i>Dim angen lliniaru.</i> |
| <i>Aelwydydd incwm isel</i> | <i>Cadarnhaol: Bydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau lleol.</i> | | <i>Bydd cyfleusterau hamdden sy'n lleol yn fwy hygyrch i aelwydydd incwm isel nad ydynt yn gallu teithio'n bell o'u cartref o bosibl.</i> |

Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel

rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus ar y cyfyngiadau symud yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| <i>Hawliau Dynol</i> | <i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i> | <i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i> | <i>Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau negyddol?</i> |
|---|--|--|---|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | <i>Cadarnhaol: Bydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau lleol.</i> | <i>Wrth i ragor o safleoedd agor, bydd teuluoedd yn elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.</i> | <i>Dim angen lliniaru.</i> |

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau ar ganolfannau bowlio wrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- **Erthygl 15** – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, cyn belled â bod hynny ddim yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.
- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Y Gymraeg

Nid yw'n hysbys bod gan y cynigion unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol amlwg ar nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**.

vi. Digwyddiadau mawr

EFFEITHIAU AR LESIANT

Mae nifer o astudiaethau Cymreig a rhyngwladol yn dangos bod y coronafeirws yn cael, neu'n debygol o gael, effaith barhaol ar les pobl³³. Mae'n gwaethygu teimladau o bryder, unigrwydd, ac anhapusrwydd ymhlith pobl, hynny yn aml oherwydd diffyg cysylltiad â phobl eraill.

Mae'r *What Works Centre for Wellbeing* yn nodi tystiolaeth gref y gall celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol cyfranogol wella llesiant pan fyddant yn dod â chyfranogwyr at ei gilydd yn yr un gofod ffisegol³⁴.

Mae mynd i ddigwyddiadau neu gymryd rhan ynddynt, yn enwedig chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn cyfrannu at leihau unigrwydd a theimladau o fod yn ynysig, gan ein helpu i fod yn genedl iach ac egnïol. Maen nhw'n rhan annatod o'r agenda ataliol ehangach ar draws ystod o feysydd ar draws y llywodraeth. Mae tystiolaeth wyddonol dda y gall bod yn gorfforol egnïol ein helpu i fyw bywydau iachach a hapusach. Gall ymarfer corff rheolaidd leihau'r risg o lawer o gyflyrau cronig gan gynnwys clefydau'r galon, strôc, diabetes math 2, dementia, rhai mathau o ganser, gordewdra, problemau iechyd meddwl a chyflyrau cyhyrsgerberbydol.

Dangosodd canlyniadau arolwg a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru ac a gynhaliwyd gan Savanta ComRes ar 8-12 Mai 2020 fod pobl yn gwneud llai o weithgarwch corfforol ar hyn o bryd.

Mae Traciwr Teimladau Defnyddwyr COVID-19 y DU³⁵ yn gofyn i drigolion y DU pa fathau o weithgareddau y maent fwy neu lai tebygol o'u gwneud dros y misoedd nesaf o'u cymharu â'r arfer. Mae data diweddaraf ar lefel y DU yn dangos sgôr cymryd rhan net o -5 ar gyfer 'Arlwyo, Adloniant a Digwyddiadau' (e.e. bwytai, sinema a gwyliau). Mae'r gweithgareddau hyn yn debygol o barhau i greu llai o ymweliadau, er bod hyn yn llai nag mewn adroddiadau blaenorol nac ymhlith trigolion Cymru³⁶.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae llawer o gwmnïau'n defnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) Llywodraeth y DU i roi staff ar ffyrlo neu fathau eraill o gymorth. Mae'r CJRS yn sicrhau, petai gweithwyr yn cael eu rhoi ar ffyrlo, y bydd Llywodraeth y DU yn gwarantu 80% o'u hincwm cyflogedig arferol (gyda chyflogwyr yn cael ychwanegu at y cyflog yn ôl eu disgrisiwn). Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu lleihau lefel eu cyfraniad i'r gwarant o ddiwedd mis Mehefin sy'n golygu y bydd gofyn i gyflogwyr gyfrannu fwyfwy bob yn gam at warant incwm eu gweithwyr. Bydd y cynllun yn dod i ben yn llawn ar 30 Medi. Felly, gall tapro CJRS am i lawr arwain at golli miloedd o swyddi yn y diwydiant digwyddiadau os na fydd hi'n talu ffordd i fusnesau ailagor a chyfrannu at y gwarant. Mae pryderon y gallai diffyg

³³ Gweler er enghraifft

https://whatworkswellbeing.org/blog/places-spaces-and-loneliness-what-matters-for-participatory-art-and-sport/?mc_cid=c975bde8f8&mc_eid=e4236b0dbe

³⁵ https://www.visitbritain.org/sites/default/files/vb-corporate/covid-19_consumer_tracker_wave_30_final.pdf

³⁶ Troednodyn i ddilyn – adroddiad proffil Cymru a gyhoeddir ddydd Iau

eglurder ynghylch codi'r cyfyngiadau arwain at ddiswyddo staff rhag ofn yn wyneb cryn ansicrwydd ynghylch refeniw yn y dyfodol.

Canfu arolwg o'r diwydiant digwyddiadau ym mis Tachwedd 2020³⁷ fod 75% o'r ymatebwyr sy'n cyflogi staff wedi gorfod rhoi staff ar ffyrlo. Mae tua hanner (52%) y rheini sy'n cyflogi staff naill ai wedi diswyddo, wedi rhoi rhybudd diswyddo neu'n bwriadu rhoi rhybudd diswyddo, neu'n rhagweld y bydd yn rhaid diswyddo. Y golled ganolrif fesul busnes a ymatebodd i'r arolwg o'r argyfwng yw rhwng £50,001 a £100,000. Mae'r golled ganolrif fesul busnes yn amrywio yn ôl maint y busnes. Y golled ganolrif i'r rhai sy'n cyflogi 1 i 5 o bobl yw £100,000 i £250,000, a'r golled ganolrif i'r rhai sy'n cyflogi mwy na 50 o staff yw dros £1,000,000³⁸.

Bydd ailgychwyn digwyddiadau drwy'r rhaglen profi digwyddiadau yn helpu llawer o weithwyr o fewn y sector i fynd yn ôl i'r gwaith – gweithwyr a allai fod yn ennill llai na'r Cyflog Byw a'r Isafswm Cyflog am eu bod ond yn derbyn 80% o'r incwm roeddent yn ei ennill cyn yr argyfwng. I lawer yng Nghymru mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith andwyol ar incwm eu haelwydydd. Mae tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu bod 20% o bobl mewn sefyllfa ariannol waeth o ganlyniad i'r coronafeirws, a bod 16% yn well eu byd.³⁹ Mae pryderon wedi'u codi bod y coronafeirws yn cael effaith andwyol ar gyllid aelwydydd tlotach, yn enwedig y rhai sydd â'u haelodau'n gweithio yn y sectorau sydd wedi cau. Mae'r aelwydydd hyn yn llai tebygol o allu lleihau eu gwariant yn sylweddol o ganlyniad i'r coronafeirws i'r un graddau ag aelwydydd cyfoethocach, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn ariannu eu gwariant yn ystod y cyfnod clo gan ddefnyddio cynilion (a all fod yn fach) a thrwy gronni dyled.⁴⁰ Mae'r rheini sydd ar incwm is yn fwy tebygol o fod wedi gweld eu hincwm yn gostwng, ac mae gweithwyr ar gyflog is wedi bod yn fwy tebygol na'r rhai ar gyflogau uwch o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu golli swydd.⁴¹

Mae digwyddiadau'n sbardun i'r sectorau twristiaeth, lletygarwch a chynhyrchu bwyd. Dyma wariant cysylltiedig y rheini aeth i ddigwyddiadau yn 2019:

- £220m ar dripiâu 3+ awr undydd hamdden domestig (5% o'r gwariant undydd domestig), ac amcangyfrif o £35m ar dripiâu dros nos domestig (2% o'r gwariant dros nos domestig), lle mai digwyddiad chwaraeon yw'r prif weithgaredd.
- £88m ar dripiâu 3+ awr undydd hamdden domestig (2% o'r gwariant undydd domestig), ac amcangyfrif o £105m ar dripiâu dros nos domestig (6% o'r gwariant dros nos domestig), lle mai digwyddiad diwylliannol/celfyddydol yw'r prif weithgaredd.
- £21m ar dripiâu dros nos domestig ar gyfer digwyddiad busnes (sef 15% o'r holl dripiâu a gwariant busnes dros nos domestig, ac 1.2% o'r holl wariant domestig dros nos).

³⁷ <https://gov.wales/events-industry-and-supply-chain-business-covid-19-impact-survey-12-november-8-december-2020-html>

³⁸ Pan adroddir canlyniadau yn ôl maint y busnes, mae maint y sampl yn fach. Felly rhaid wrth rywfaint o betrustrer wrth ddehongli'r canfyddiadau.

³⁹ Public Health Wales (2021) Public Engagement Survey on Health and Wellbeing during Coronavirus Measures: Week 48: 1 – 7 March 2021.

⁴⁰ Bangham & Leslie (2020) Rainy days: An audit of household wealth and the initial effects of the coronavirus crisis on saving and spending in Great Britain. Resolution Foundation.

⁴¹ Resolution Foundation: [Incomes, savings and spending through the coronavirus crisis](#) November 2020

- Nid oes data ar lefel Cymru am dripiâu busnes undydd domestig, ond tua £16bn yw gwerth marchnad y DU (data GBDVS 2018, a gynhyrchwyd ar gyfer Eurostat).
- £72m ar dripiâu busnes rhyngwladol (pob diben busnes – dim digon o fanylion yn y data i nodi 'digwyddiadau busnes'), sef 14% o'r gwariant yng Nghymru gan ymwelwyr rhyngwladol.

Mae llety â gwasanaeth a dinasoedd / trefi mawr wedi profi adferiad arafach a galw is ar ôl y cyfnod clo na mathau ac ardaloedd llety eraill, felly gallai ymwelwyr â digwyddiadau a busnes gael effaith gadarnhaol ar y galw am y sectorau a'r lleoliadau hyn.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Fel gyda llacio cyfyngiadau eraill, bydd codi'r cyfyngiadau yn y maes hwn bron yn sicr o gynyddu'r rhesymau i bobl deithio. Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol o'i chymharu â'r misoedd diwethaf, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfnod clo. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi yn y dyfodol gyda'r nod o gadw gwelliannau yn ansawdd yr aer yn y dyfodol os medrir.

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchoddedig wedi'i nodi isod. Mae'r cynnig, a siarad yn gyffredinol, yn hyrwyddo cydraddoldeb gan y bydd yn cynyddu cyfleeodd i bobl gymdeithasu â'i gilydd, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd; a gwella lles meddyliol a chorfforol.

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|--|--|---|---|
| <i>Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i> | <i>Cadarnhaol:</i> Mae cael mynd i ddigwyddiadau yn cael effaith gadarnhaol ar les meddyliol a chorfforol. | Mae'r risg o'r canlyniadau negyddol i'r iechyd o ddal COVID-19 yn cynyddu gydag oedran, ond mae cadw pellter a chadw dwylo'n lân yn eu lleihau. | <i>Amh</i> |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|--|--|---|
| <i>Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)</i> | Cadarnhaol: yn gyffredinol, dylai pobl ag anableddau gael elwa ar yr un cyfleoedd â phawb arall i gymryd rhan mewn digwyddiadau. | Bernir bod caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn beth cadarnhaol gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | Amh. . |
| <i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i> | Heb ganfod effaith wahanolaethol fawr. | Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn ond credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | <i>Amh</i> |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|--|---|
| <i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol fawr. | Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn ond credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | |
| <i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | Amg. |
| <i>Crefydd, cred a diffyg cred</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | Amh. |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| <i>Rhyw / Rhywedd</i> | Mae posibilrwydd y bydd y manteision i ddynion yn fwy gan eu bod yn cymryd mwy o ran mewn chwaraeon. Ond gan fod cymaint o ddynion a menywod yn mynd i ddigwyddiadau celf/diwylliannol, mae pawb yn elwa. | Gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, bydd yn lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd. Bydd yn gwella lles meddyliol a chorfforol trwy gynyddu gweithgarwch. | |
| <i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | Amh. |
| <i>Priodas a phartneriaeth sifil</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | Amh |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|--|--|---|---|
| <i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | Amh |
| Aelwydydd incwm isel | <i>Cadarnhaol:</i> Er bod y dystiolaeth yn awgrymu nad yw lefelau net gweithgarwch corfforol wedi newid fawr ddim yng Nghymru, gwelir effaith wahaniaethol yn ôl cefndir cymdeithasol economaidd ar oedolion a phlant. Mae'r rheini o gefndiroedd cymdeithasol economaidd uwch yn gwneud mwy o ymarfer corff na chyn yr argyfwng ac mae'r rheini o gefndir cymdeithasol economaidd is yn gwneud llai. Bydd gweithgarwch ailalluogi yn cynyddu cyfleoedd i'r rheini o gefndir cymdeithasol economaidd is i wneud ymarfer corff. | <p>Arolwg Chwaraeon Cymru gan Savanta ComRes o 8-12 Mai 2020:</p> <p>Ceir cryn amrywiaeth serch hynny o fewn rhai grwpiau demograffig. Ceir cynnydd net yn lefelau gweithgarwch y rheini o gefndir cymdeithasol economaidd uwch (+7 pwynt canran). Ond ceir gostyngiad net ymhlith y rheini o gefndir cymdeithasol economaidd is (-4 pwynt canran).</p> <p>Y rheini o gefndir cymdeithasol economaidd is sydd i'w gweld yn profi'r gostyngiad mwyaf (SES ISEL: Mwy 23% Llai 36% = -13 pwynt canran. SES UCHEL: Mwy 28% Llai 35% =-7 pwynt canran)</p> | Amh |

Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfnod clo yw diogelu hawl pawb i fywyd, gan arwain, am resymau iechyd y gellir eu cyfiawnhau, at gyfyngu ar hawliau i fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu. Disgrifir iechyd y cyhoedd fel rheswm derbyniol i gyfyngu ar y rhyddid hwn cyn belled â'i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Serch y cyfyngiadau sy'n parhau oherwydd y cyfnod clo, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| <i>Hawliau Dynol</i> | <i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i> | <i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i> | <i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</i> |
|---|--|--|--|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Credir y byddai caniatáu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn fanteisiol i bawb; gan y byddai'n cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd a gwella lles meddyliol a chorfforol. | Amh. |

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

O ran hawliau'r plentyn, rydym wedi ystyried Erthygl 31 ac Erthygl 15 (hawl i ymuno ag amrywiaeth eang o weithgareddau ac i gwrdd â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau a chymdeithasau, cyn belled nad yw hynny'n atal pobl eraill rhag arfer eu hawliau hwythau). Bydd proses araf o aildechrau cynnal digwyddiadau yn cefnogi'r erthyglau uchod.

Y Gymraeg

Nid oes tystiolaeth bod gan y mesurau a ddisgrifir uchod unrhyw effeithiau negyddol amlwg ar nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**.

vii. Ymweliadau addysgol preswyl

EFFEITHIAU AR LESIANT

Canfu Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd lechyd Cyhoeddus Cymru a gynhaliwyd ddechrau mis Mawrth fod 27 y cant o bobl wedi dweud eu bod wedi poeni 'llawer' am eu iechyd meddwl a'u llesiant yn ystod yr wythnos flaenorol. Fe wnaeth yr elusen iechyd meddwl Mind gyhoeddi tystiolaeth o arolwg ym mis Mehefin y llynedd, a oedd yn awgrymu bod iechyd meddwl dros hanner yr oedolion a'r bobl ifanc yn y DU wedi dirywio ers i'r cyfyngiadau symud fod mewn grym. Canfu ymchwil mwy diweddar gan yr elusen iechyd meddwl, y Sefydliad Iechyd Meddwl, fod dros hanner oedolion y DU yn pryderu neu'n poeni oherwydd y pandemig. Canfu'r ymchwil fod hyn yn fwy cyffredin ymysg menywod, myfyrwyr a'r rheini a oedd yn ddi-waith; a bod pobl iau a rhieni sengl yn dweud eu bod yn llawer mwy unig.⁴²

Cydnabyddir gwerth ymweliadau addysgol i les dysgwyr, yn enwedig dros flwyddyn o gyfyngiadau sylweddol ar deithio, cymysgu cymdeithasol a phrofiadau addysgol. Mae penaethiaid ysgolion wedi bod yn gofyn am lacio'r rheolau i ganiatáu ymweliadau addysgol preswyl er lles a llesiant disgyblion.

Mae'r arolwg Coronafeirws a Fi gan Gomisiynydd Plant Cymru o blant a phobl ifanc yn dangos bod 76% o ymatebwyr Blwyddyn 6 yn teimlo bod dweud hwyl fawr i'w hysgol gynradd yn bwysig fel rhan o'r symud i ysgol uwchradd. Yn yr un modd, roedd 53% o ymatebwyr 12-18 oed yn drist eu bod yn colli allan ar brofiadau roedden nhw'n disgwyl ymlaen atyn nhw.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Effeithiau economaidd cyffredinol

Yn 2018, roedd yr holl sector *Llety* yn cyfrannu £820 miliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru, a oedd gyfwerth â 1.3% o gyfanswm GVA y flwyddyn. Yn 2019, roedd y sector yn cyflogi tua 32,000 o bobl ledled Cymru⁴³ ac roedd 1,855 o ganghennau o fusnesau llety ar draws Cymru.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi adrodd bod Cynnyrch Domestig Gros (GDP) blynyddol y DU wedi disgyn 9.9% yn 2020, a bod y sector *Llety a Gwasanaethau Bwyd* wedi dangos twf negyddol o 44%. Roedd effaith arbennig ar y sector *Llety*, a welodd ostyngiad o 73% mewn allbwn rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2020⁴⁴. Mae hosteli Cymru wedi gweld niferoedd cyson a chryf yn defnyddio eu gwelyau dros y blynyddoedd diwethaf ac roedd 54% o'u gwelyau wedi cael eu defnyddio yn 2019, a dim ond 10% o ddefnydd gwelyau ar gyfartaledd yn 2020. Yn yr un modd, roedd y nifer a oedd yn defnyddio lleiniau ar gyfer carafanau teithiol yn 43% yn 2019 ond dim ond 32% yn 2020.⁴⁵

Mae Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Ganfyddiadau ac Amodau Busnes (BICS) yn rhoi cipolwg ar effeithiau'r cyfyngiadau ledled y DU ar y sector *Gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd* yn gyffredinol.⁴⁶ Ochr yn ochr â'r *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden*, mae'n dal yn un o'r meysydd yn economi'r DU sydd wedi cael ei daro waethaf drwy gydol y pandemig iechyd a'r cyfyngiadau cysylltiedig. Roedd 8 o bob 10 busnes yn y DU yn masnachu ddiwedd Ebrill 2021

⁴² Mental Health Foundation: [Coronavirus: mental health and the pandemic Wave 9: December 2020](#)

⁴³ BRES data will be used for employment figures. 2019 data for SIC group 55: Accommodation

⁴⁴ ONS [GDP published 12 February 2021](#).

⁴⁵ Croeso Cymru [Accommodation Occupancy report 2019](#)

⁴⁶ Yn berthnasol i 25 Ionawr - 7 Chwefror 2021.

ond dim ond 6 o bob 10 busnes *Llety a Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd* oedd yn masnachu yn ystod y cyfnod hwn, er bod nifer y busnesau a oedd ar agor ym maes y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden wedi codi i fod yn debyg i gyfartaledd y DU.⁴⁷ Yn ôl y disgwyl, mae'r ddau sector hyn yn parhau i weld y gostyngiadau mwyaf mewn trosiant busnes, gyda 6 o bob 10 busnes *Llety a Gwasanaethau bwyd* a dwy ran o dair o fusnesau *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden* yn dweud bod eu trosiant wedi gostwng o'r lefelau arferol, o'i gymharu â thraean o fusnesau'r DU yn gyffredinol.⁴⁸

Sefydlodd Llywodraeth Cymru gronfa i gefnogi'r [sector addysg awyr agored preswyl yng Nghymru](#) gyda dyraniad cychwynnol o £2 miliwn. Fodd bynnag, rhoddodd y gronfa hon gymorth i ganolfannau cymwys ledled Cymru dalu am gostau gweithredu hanfodol yn ystod y cyfnod rhwng Mehefin a Medi 2021 (yn unig). Bydd y llacio hwn yn galluogi canolfannau addysg awyr agored i ailgychwyn yn raddol cynnig ymweliadau ar gyfer sector sydd, fel y nodwyd uchod, wedi diodde dros y pandemig.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae'r sector llety yn rhan o'r economi lle mae'n rhaid i weithwyr a defnyddwyr deithio i safleoedd penodol i weithredu. Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol wrth gymharu â'r misoedd diwethaf, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfnod clo. Mae'r effaith amgylcheddol yn debygol o fod yn fach gan y byddai ymwelwyr fel arfer yn rhannu trafndiaeth (ysgol) ac y cynghorir ysgolion i gadw amserau teithio mor fach â phosibl.

ASESIAD O'R EFFEITHIAU

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchoddedig wedi'i nodi isod.

⁴⁷ Canran y busnesau yn y DU a ddywedodd bod eu trosiant wedi gostwng – 61% yn y sector *Llety a Gwasanaethau Bwyd*, 67% yn y sector *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden*, a 34% oedd y cyfartaledd yn holl sectorau'r DU.

⁴⁸ 61% oedd canran y busnesau yn y DU a ddywedodd eu bod wedi colli trosiant yn y sector *Llety a Gwasanaethau Bwyd*, 67% yn y sector *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden*, a 34% oedd y cyfartaledd ar gyfer pob sector yn y DU.

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|--|--|--|--|
| <i>Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i> | <p>Cadarnhaol: Mae caniatáu ymweliadau addysgol preswyl yn gwella lles meddyliol plant a phobl ifanc yn sylweddol ac yn darparu profiadau addysgol a dysgu gwerthfawr nad yw'n bosibl eu hailadrodd yn yr ystafell ddosbarth. Bydd ailddechrau ymweliadau preswyl yn helpu hefyd i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd i'r rhai sy'n gweithio yn y sector (h.y. drwy dderbyn eu cyflog llawn wrth iddynt adael ffyrlo).</p> <p>Negyddol: Y risg o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal COVID-19 wrth i fwy o ddysgwyr gymysgu, ond bydd gofyn i ysgolion sicrhau bod disgyblion yn cael eu cadw o fewn eu grwpiau cyswllt penodol, felly ystyrir bod y risgiau ychwanegol sy'n gysylltiedig â llacio'r mesur hwn yn fach, yn enwedig o gofio ein bod yn rhagweld na fydd y galw am gynnal ymweliadau yn ystod y cyfnod o hyn tan ddiwedd y tymor ysgol (12 Gorffennaf) yn debygol o fod yn fawr.</p> | | <p>Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.</p> <p>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y bydd angen i ysgolion a llety preswyl perthnasol eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol</p> |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|--|--|---|
| <i>Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)</i> | Cadarnhaol: Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod pobl anabl yn cynrychioli 11% o'r gweithwyr yn y sector llety yng Nghymru (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach). | Amh |
| <i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Amh | Amh |
| <i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i> | Amh | Amh | Amh |
| <i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i> | Niwtral: Mae unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ffurfio cyfran fwy o'r gweithwyr yn y sector llety nag o'r gweithlu ehangach. Negyddol: Gall grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig fod mewn perygl anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol os byddant yn dal COVID-19. Dylid ystyried hyn ar gyfer staff a chwsmeriaid y sector. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 5% o weithwyr mewn llety yng Nghymru yn dod o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (a dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli). | Mae'r canllawiau a'r mesurau lliniaru a hyrwyddir wedi'u creu i leihau'r risg o drosglwyddo'r clefyd ar gyfer pob grŵp, gan gynnwys cwsmeriaid a staff. Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae angen i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol. |
| <i>Crefydd, cred a diffyg cred</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Amh | Amh |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|---|--|--|--|
| <i>Rhyw / Rhywedd</i> | Cadarnhaol: Gallai agor y sector arwain at ganlyniadau buddiol o ran dosbarthiad i fenywod pe bai hynny'n helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben). | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 53% o weithwyr mewn llety yng Nghymru yn fenywod a 47% o'r gweithlu yng Nghymru sy'n fenywod | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol |
| <i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Amh | Amh |
| <i>Priodas a phartneriaeth sifil</i> | Ni ddisgwylir effaith wahaniaethol | Amh | Amh |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|--|---|---|---|
| <i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i> | <p>Cadarnhaol: Mae caniatáu ymweliadau addysgol preswyl yn gwella lles meddyliol plant a phobl ifanc yn sylweddol ac yn darparu profiadau addysgol a dysgu gwerthfawr nad yw'n bosibl eu hailadrodd yn yr ystafell ddosbarth.</p> <p>Negyddol: Gallai oedolion a gyflogir gan y sector llety fod â chyfrifoldebau gofal plant a'r sector i agor cyn i ysgolion gau ar gyfer gwyliau'r haf (er bod estyniad ar gael yn ôl disgrisiwn Awdurdodau Lleol). Mae'n bosibl bod y cyfnod clo wedi amharu ar fathau traddodiadol o ofal plant.</p> | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru'n awgrymu bod gan 5,600 o oedolion a gyflogir gan y sector llety blant o dan 16 oed. | Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau ar y sector gofal plant er mwyn lleihau'r pwysau ar deuluoedd sydd ag oedolion a fydd yn gorfod dychwelyd i leoliad ffisegol i weithio. |

| Grŵp neu nodwedd warchoddedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau? |
|--------------------------------------|---|--|--|
| <i>Aelwydydd incwm isel</i> | Cadarnhaol: Gallai agor y sector arwain at ganlyniadau buddiol o ran dosbarthiad i bobl ar incwm isel pe bai hynny'n helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben). | <p>Mae data dros dro o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau SIC 2 ddigid yng Nghymru. Ar gyfer Llety (cod SIC 55), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.82 – £3.37 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.19. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £280.30 yw'r canolrif – tua £160.30 yn is na chanolrif Cymru.</p> <p>Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod o leiaf 75% o weithwyr Llety yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru.</p> | Amh |

Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfnod clo yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i gynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Disgrifir iechyd y cyhoedd fel rheswm derbyniol i gyfyngu ar y rhyddid hwn cyn belled â'i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Serch y cyfyngiadau sy'n parhau oherwydd y cyfnod clo, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| <i>Hawliau Dynol</i> | <i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i> | <i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i> | <i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?</i> |
|--|--|---|--|
| <i>Mae Erthygl 11 o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol yn cydnabod hawl pawb i gael safon byw ddigonol ar ei gyfer ei hun a'i deulu, gan gynnwys cartref a digon o fwyd a dillad, ac i sicrhau bod ei amodau byw yn gwella'n barhaus.</i> | Cadarnhaol: bydd caniatáu i'r sector llety ailagor yn yn hwb i lawer o weithwyr yn y sector sydd efallai yn ennill llai na'r Cyflog Byw Cenedlaethol neu'r Isafswm Cyflog am eu bod yn derbyn 80% o'r incwm roeddent yn ei ennill cyn dechrau'r argyfwng, i fynd yn ôl i'r gwaith. | Mae data o'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod gweithwyr yn y sector hwn yn ennill cryn dipyn yn llai na'r cyflog cyfartalog (canolrif) yng Nghymru a bod llawer yn debygol o fod yn ennill llai na'r cyflog Byw Cenedlaethol/isafswm Cyflog yn sgil bod ar ffyrlo. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

- Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Y brif fantais yw'r effaith gadarnhaol o fynd ar wyliau ar **Erthygl 31** (Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau). Gallai mynd ar wyliau fel rhan o aelwyd estynedig neu gydag aelwyd arall sy'n cadw pellter cymdeithasol gefnogi hawliau o dan **Erthygl 15** (Mae gan blant yr hawl i gwrdd â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau a chymdeithasau, cyn belled nad yw hynny'n atal pobl eraill rhag arfer eu hawliau hwythau).

Dylai agor y sector gael effaith gadarnhaol yn gyffredinol o ran incwm rhieni:

- **Erthygl 18** – Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.
- **Erthygl 27** – Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ymateb i'w hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio i ddarparu hyn

Wrth fodloni rhwymedigaethau o dan **Erthygl 12** (Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd yn eu barn nhw, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried) rydym wedi ystyried arolwg Coronafeirws a Fi a gafodd ei lenwi gan dros 23,700 o blant a phobl ifanc 3-18 oed yng Nghymru. O ran yr hawl i ymlacio a chwarae, soniodd nifer o blant am bethau

cadarnhaol yn ymwneud â chael mwy o amser i chwarae, gan dynnu sylw at y cyfle i anghofio am y coronafeirws a mwynhau mwy o ryddid. Y ddau ateb mwyaf poblogaidd gan bobl ifanc (12-18 oed) ynghylch pa reolau aros gartref a oedd wedi effeithio fwyaf ar sut roedden nhw'n teimlo yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'peidio â gallu ymweld ag aelodau'r teulu' (59%). Gellid ategu'r canfyddiadau hyn yn gadarnhaol drwy gyfuniad o aelwydydd estynedig a gyflwynwyd yn ddiweddar ac ailagor llety sy'n hwyluso gwyliau.

Y Gymraeg

Nid yw'n hysbys bod gan y cynigion i ailagor llety unrhyw effeithiau negyddol na chadarnhaol ar nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg, fel a nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**.